

Trivallis.

Adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol

2023/24



Cynnwys

Trivallis ydym ni	3
Uchafbwyntiau perfformiad yn 2023/24	3
Ein gwerthoedd	4
Blaenoriaethau craidd	4
Gwybodaeth gyfreithiol	5
Datganiad gan Gadeirydd y Bwrdd	6
Datganiad gan y Prif Weithredwr	7
Ein cartrefi	8
Ein gwasanaethau i denantiaid	15
Ein cymunedau	20
Ein pobl	23
Ein systemau data a digido	27
Gwerth am arian	29
Perfformiad ariannol	32
Rheoli trysorlys	33
Llywodraethu	34
Y Bwrdd	35
Y tîm gweithredol.....	41
Llywodraethu corfforaethol	43
Adroddiad y Pwyllgor Sicrwydd	44
Rheoli risg	45
Datganiad o gyfrifoldebau'r Bwrdd	47
Datganiad rheolaeth fewnol	48
Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Aelodau Trivallis Limited	50
Datganiadau ariannol	54-59
Nodiadau i'r datganiadau ariannol	60-93

Trivallis ydym ni

Cymdeithas dai elusennol yw Trivallis sy'n cynnig tai fforddiadwy a gwasanaethau i deuluoedd ac unigolion yn Rhondda Cynon Taf a Bae Caerdydd.

Rydym yn rheoli dros 10,000 o eiddo, gan ddarparu cartrefi i oddeutu 25,000 o bobl, ynghyd â gwasanaethau cymorth tenantiaeth o ansawdd uchel. Rydym yn brif gyflogwr ac yn gweithio gyda chontractwyr lleol sy'n rhannu ein hymrwymiad i wella lles ein cymunedau a'n preswylwyr..

Rydym yn llawer mwy na landlord yn unig. Rydym yn gweithredu fel Cwmni Cymunedol Cydfuddiannol.

- Ein tenantiaid sy'n berchen arnom
- Gweithio ar y cyd rhwng tenantiaid, staff, a phartneriaid lleol
- Gwreiddiau dwfn yn ein cymunedau
- Cynnwys y bobl y mae ein penderfyniadau'n effeithio arnynt



Uchafbwyntiau perfformiad yn 2023/24

84%

% Bodlonrwydd ar atgyweiriadau



£34m

Gwariant gyda chontractwyr yn ne-ddwyrain Cymru



99.3%

% Cydymffurfedd statudol



100%

% Cydymffurfedd diogelwch rhag



65%

Dyraniadau tai sy'n mynd i bobl sydd mewn perygl o ddigartrefedd



77%

Bodlonrwydd cyffredinol cwsmeriaid



96%

% Atgyweiriadau brys a gwblhawyd yn brydlon



£4m

Incwm tenantiaid a gynyddwyd trwy wasanaethau Cyngor Ariannol



434

Nifer y cartrefi sy'n cael addasiadau hygrychedd



Ein gwerthoedd

1. Dibynadwy

Dibynadwyedd yw un o gonglfeini ein diwylliant. Mae ymddiriedaeth nid yn unig yn rhywbeth rydym yn ceisio ei hennill gan ein tenantiaid, ein cydweithwyr, a'n cymuned; mae'n werth rydym yn ei arddangos yn ein holl weithredoedd a rhyngweithiadau, hefyd.

2. Caredig

Mae caredigrwydd wrth wraidd popeth a wnawn. Trwy fod yn garedig wrth ryngweithio o ddydd i ddydd, credwn ein bod yn creu amgylchedd cefnogol a thosturiol i'n tenantiaid, ein cydweithwyr, a'n cymuned.

3. Blaengar

Rydym yn diffinio cynnydd fel ymrwymiad diysgog i ddysgu, arloesi, ac addasu'n barhaus. Rydym yn cymryd camau pendant i geisio cyfleoedd i wella, croesawu newid, ac annog datblygiad ein cydweithwyr, gan arwain y ffordd bob amser.

4. Cynhwysol

Rydym yn credu mewn diwylliant o gynwysoldeb sy'n gwerthfawrogi safbwyntiau, anghenion, a chyfraniadau unigryw pob unigolyn. Rydym yn ymrwymo i drin pob aelod o staff a thenant gyda pharch, gan groesawu amrywiaeth, a chymryd camau pendant i geisio mewnbwn gan bob rhan o'n cymuned.

Blaenoriaethau craidd

Landlord gwych: Darparu gwasanaethau landlord rhagorol a chyflawni yn unol â safonau eithriadol.


Cyflogwr gwych: Rydym yn ymdrechu i fod yn gyflogwr o ddewis, gan gynnig cyfleoedd rhagorol, gweithle cefnogol, ac amodau teg i'n staff a'n gwirfoddolwyr. Rydym yn ymrwymo i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol a darparu cymorth a hyfforddiant i wirfoddolwyr.

Canolbwyntio ar gynaliadwyedd: Rydym yn gwneud penderfyniadau sy'n cefnogi sefydlogrwydd ariannol tymor hir ein sefydliad ac yn gweithio i leihau ein heffaith ar yr hinsawdd. Rydym yn gweithio gyda phreswylwyr i leihau'r effaith ar newid yn yr hinsawdd o fewn cymunedau gymaint â phosibl.

Ymrwymiad i gynhwysiant: Mae diwylliant ein cwmni yn gynhwysol ac yn groesawgar. Rydym yn cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth, a thegwch wrth wneud penderfyniadau, darparu gwasanaethau, recriwtio, a rheoli.

Trechu tlodi: Rydym yn cydnabod effaith tlodi yn ein cymunedau ac yn cymryd camau pendant i weithio i'w leihau trwy ymdrech ddim gyda phartneriaid a chymunedau.

Dysgu'n barhaus: Rydym yn gwerthfawrogi dysgu parhaus, yn annog cyflogeion i gaffael gwybodaeth a sgiliau newydd, ac yn hyrwyddo diwylliant o fod yn agored, cydweithio, ac arloesi. Rydym yn dysgu o'n profiadau ein hunain, ein cymunedau, ac yn ceisio syniadau da o fannau eraill i wella ein sefydliad.



Gwybodaeth gyfreithiol

Rhif Cofrestru Llywodraeth Cymru L143, Rhif Cofrestru Cymdeithas Budd Cymunedol 30261R. Cymdeithas Gofrestredig o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014. Cyfeiriad cofrestredig: Trivallis, Tŷ Pennant, Mill St, Pontypridd CF37 2SW.

Ysgrifennydd y Cwmni

Lisa Pinney (a benodwyd ar 01/06/2023)

Tîm Arweinyddiaeth Weithredol

Duncan Forbes, Prif Weithredwr (a benodwyd ar 01/07/2022)

Keiron Montague, Cyfarwyddwr Gweithredol Cymunedau (a benodwyd ar 09/03/2022)

Lisa Pinney, Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau (a benodwyd ar 01/05/2023)

Kate Jones, Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl (a benodwyd ar 01/04/2024)

Banc

Lloyds Bank plc, Market Square, Pontypridd, CF37 2TF

Cyllidwyr

Lloyds Bank plc, 25 Gresham Street, Llundain, EC2V 7HN

Archwilydd Allanol

Haines Watts Wales LLP, Llys Neifion, Ffordd Vanguard, Caerdydd, CF24 5PJ

Archwilydd Mewnol

Mazars LLP, 45 Church Street, Birmingham, B3 2RT

Is-gwmnïau

Cartrefi Bae Caerdydd LLP

OC391633

Wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr Gweithredol

Porthcwlis Limited

07994420

Wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr Segur





Datganiad gan Gadeirydd y Bwrdd Nick Beckett, Cadeirydd y Bwrdd

Croeso i'n hadroddiad blynyddol ar gyfer 2023/24. Fel Cadeirydd y Bwrdd, mae'n bleser gennyf gyflwyno cynnydd a chyflawniadau Trivallis yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Gwnaed gwir gynnydd y llynedd. Rydym nid yn unig wedi dod allan o'n hymgymeriad gwirfoddol gyda'r rheoleidiwr – gyda sgorau gwyrdd am lywodraethu (gan gynnwys gwasanaethau tenantiaid) a hyfywedd ariannol – ond hefyd wedi adeiladu sylfeini cadarn ar gyfer y dyfodol.

Yr hyn sydd wrth wraidd ein llwyddiant yw cyfraniad amhrisiadwy ein tenantiaid. Mae eu cyfranogiad, eu hadborth, a'u hymroddiad wedi bod yn allweddol i ffurfio ein hymagwedd a gwella ansawdd ein gwasanaethau. Eu lleisiau nhw sy'n harwain ein penderfyniadau a'n hysbrydoli i wneud yn well bob dydd.

Yn ystod y flwyddyn, rwyf wedi cyfarfod â llawer o aelodau staff ac mae eu hymrwymiad i Trivallis ac, yn bwysicach, i'n tenantiaid yn fy rhyfeddu bob amser. Yr uchafbwynt i mi oedd bod yn bresennol yn y gwobrau hir-wasanaeth a siarad â staff a chanddynt fwy na 40 mlynedd

o brofiad, a hwythau'r un mor awyddus a brwdfrydig ag yr oeddent ar eu diwrnod cyntaf. Mae ein sylfaen staff ymroddedig a'n henw da wedi denu mwy o ddiddordeb gan bobl ddawnus sy'n awyddus i ymuno â'n sefydliad. Mae'r mewnlifiad hwn o dalent yn addawol i'r sefydliad a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Yn fy rôl fel Cadeirydd eleni, rwyf wedi gweld ein Bwrdd yn trawsnewid i fod yn dîm effeithiol iawn. Mae'r trafodaethau ym mhob cyfarfod yn blaenoriaethu lles ein tenantiaid a'n staff yn gyson, sy'n pwysleisio ein hymrwymiad i brosesau penderfynu cynhwysol.

Rwy'n wirioneddol gyffrous ynglŷn â'r dyfodol a hoffwn ddiolch i bob un ohonoch am eich gwaith eithriadol o werthfawr. Wrth i ni fynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sydd o'n blaenau, rwy'n hyderus y bydd y partneriaethau rhwng ein tenantiaid, staff a rhanddeiliaid cymunedol yn parhau i ffynnu. Gyda'n gilydd, byddwn yn ymdrechu i greu cartrefi a chymunedau lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu, a'u grymuso i ffynnu.



Datganiad gan y Prif Weithredwr Duncan Forbes, Prif Swyddog Gweithredol

Mae'n ffrind gweithio gyda thîm mor wych o bobl; Bwrdd Trivallis, ein tenantiaid cysylltiedig a'm cydweithwyr staff, sydd i gyd yn gweithio gyda'i gilydd er lles ein cymunedau yn Rhondda Cynon Taf a Bae Caerdydd. I gydnabod cyfraniad ein tenantiaid cysylltiedig at ein gwaith a'n blaenoriaethau, byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar wahân ar yr effaith y mae ein tenantiaid cysylltiedig wedi'i chael ar y gwasanaethau a ddarparwn yn ystod 23/24.

Yn ystod 2023/24, rwy'n falch o ddweud ein bod wedi gweld cynnydd amlwg mewn bodlonrwydd tenantiaid. Gellir priodoli hyn i waith caled ac ymrwymiad ein holl staff a thenantiaid cysylltiedig fel ei gilydd.

Diogelwch ein tenantiaid a'u haelwydydd yw ein prif flaenoriaeth ac rydym wedi cynnal ein hanes rhagorol o ran materion diogelwch yn ogystal â pharhau i fuddsoddi'n sylweddol mewn gwelliannau diogelwch rhag tân. At ei gilydd, rydym wedi gwneud gwelliannau i bron 1,000 o gartrefi tenantiaid yn ystod y flwyddyn trwy ein rhaglen buddsoddi cyfalaf a hefyd wedi gwneud cynnydd cyson wrth wella ein gwasanaeth atgyweiriadau.

Mae'r Bwrdd bellach wedi cymeradwyo ein Fframwaith Strategol a'n Strategaeth

Gymunedau. Rydym yn gyffrous iawn ynglŷn â'r newidiadau rydym yn bwriadu eu gwneud a'r prosiectau rydym eisiau eu cyflawni. Yn ogystal ag ymestyn ein rhaglen ddatblygu yn sylweddol a gweithio i adeiladu pentref newydd ym Mhenrhys, mae ein Strategaeth Gymunedau yn rhoi cyfeiriad clir i ni ar gyfer gwella'r ffordd rydym yn gweithio gyda'n tenantiaid a'n cymunedau i gynyddu ein heffaith i'r eithaf yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf. Rydym ni yma nid yn unig i ddarparu cartrefi diogel a fforddiadwy o ansawdd uchel, ond hefyd i gael effaith gadarnhaol fawr ar fywydau pobl a'u cymunedau trwy'r gwaith ychwanegol rydym yn ei wneud i gefnogi lles unigol a datblygiad cymunedol.

Mae'n bleser bod yn rhan o'r tîm Gweithredol ochr yn ochr â'r Bwrdd a'r Panel Gweithredu gan Denantiaid gan gydweithio ar gyfer dyfodol Trivallis, ac rwy'n falch ein bod ni wedi cyflawni ein sgôr (Werdd) sy'n dangos ein bod yn cydymffurfio'n llawn o ran llywodraethu a hyfywedd ariannol.

Hoffwn ddiolch yn fawr i'r Bwrdd, fy nghydweithwyr a'n holl denantiaid cysylltiedig am eu holl gyfraniadau yn ystod y flwyddyn.



Ein

cartrefi

Roedd ein pwyslais eleni ar wella ansawdd, nifer, ac addasrwydd ein cartrefi i fodloni anghenion ein cymunedau a gwella eu lles.

Effaith



% Cydymffurfedd diogelwch rhag tân

100%



% Cydymffurfedd dŵr

100%



% Cydymffurfedd statudol

99.3%



% Atgyweiriadau brys a gwblhawyd yn brydlon

96%



% Atgyweiriadau a gwblhawyd ar yr ymweliad cyntaf

96%



% Bodlonrwydd ar atgyweiriadau

84%



Nifer yr atgyweiriadau a gwblhawyd

47,349



Cartrefi a roddwyd ar osod yn ystod y flwyddyn

541



Dyraniadau tai sy'n mynd i bobl sydd mewn perygl o ddigartrefedd ac sydd â'r angen blaenoriaethol uchaf

344




Eiddo gwag ar ddiwedd y flwyddyn a

146



Amser trosi eiddo gwag ar gyfartaledd

57.6 days



Boeleri newydd a osodwyd

173



Ceginau newydd a osodwyd

292



Ystafelloedd ymolchi newydd a osodwyd

306



Toeon newydd a osodwyd

170



Ffenestri newydd a osodwyd

433



Drysau newydd a osodwyd

509



Addasiadau hygyrchedd a wnaed i'n cartrefi

434



Nifer y cartrefi a wellwyd trwy'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn

58



Buddsoddiad yn y rhaglen gynlluniedig 2023/24

£18.1m

Cipolwg ar ein cartrefi

Ffigur 1: Cyfanswm nifer y cartrefi

Anghenion cyffredinol	9,446
Gwarchod	635
Â chymorth	66
Cyfanswm	10,147

Ffigur 2: Ardaloedd gweithredu

Rhondda Cynon Taff	9,995
Bae Caerdydd	152
Cyfanswm	10,147



Cartrefi fforddiadwy

Rydym yn dyrannu ein cartrefi trwy broses ddyrannu gyffredin y Cyngor yn bennaf. Mae hyn yn blaenoriaethu pobl sy'n ddigartref neu mewn perygl o drais, sy'n byw mewn tai gorllawn neu mewn cyflwr gwael, neu y mae angen iddynt symud am resymau iechyd, anabledd, neu les.

- Roedd ymdrechion ar y cyd yn 2023/24 wedi hwyluso lleoli unigolion digartref yn gyflym mewn cartrefi sefydlog.
- Ar ôl eu hadnewyddu, cymerodd 6.75 diwrnod ar gyfartaledd i ailosod ein heiddo.
- Yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd 344 o eiddo ar osod i ymgeiswyr yr oedd yr Awdurdod Lleol wedi asesu eu bod yn ddigartref ac â'r angen blaenoriaethol uchaf (65% o gyfanswm yr eiddo ar osod).

Cynnal a chadw ac atgyweirio

Rydym yn deall pwysigrwydd cartref diogel a chyfforddus. Yn 2023/24, buddsoddwyd £31.7 miliwn mewn cynnal a chadw a gwella ein cartrefi. Cwblhaodd ein tîm atgyweiriadau fwy na 47,000 o atgyweiriadau, gan sicrhau bod cartrefi preswylwyr mewn cyflwr da. Cyflawnodd y tîm hwn sgôr bodlonrwydd ar atgyweiriadau o 84%.

Rydym yn ceisio cwblhau atgyweiriadau brys o fewn 24 awr a chwblhawyd 96% o'r atgyweiriadau brys o fewn yr amserlen hon. Cynhaliwyd archwiliadau blynyddol o gartrefi i sylwi ar faterion yn gynnar a gweithredwyd ar adborth gan gwsmeriaid yn brydlon.

Gan gydnabod y pwyslais cynyddol ar gyddwysiad, lleithder, a llwydni, prysurwyd ein hymdrechion i fynd i'r afael â'r materion hyn. Buddsoddwyd mewn arolygwyr arbenigol i asesu problemau parhaus ac roedd 19 o achosion agored â blaenoriaeth uchel ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd achosion lleithder a llwydni byw wedi gostwng o 312 i 281 ar ddiwedd y flwyddyn, ac roedd nifer gyfartalog y diwrnodau i gau achos cyddwysiad, lleithder, a llwydni wedi gwella o 39 i 35 niwrnod.

Diogelwch a chydymffurfedd

Mae ein cydymffurfedd statudol a'n mesurau diogelwch wedi rhagori ar safonau'r sector yn gyson. Ar ddiwedd y flwyddyn, mae gan 100%

o'n cartrefi dystysgrifau diogelwch nwy cyfredol, sy'n fwy na chyfartaledd cymdeithasau tai, sef 99.7%. Mae gan bron pob un o'n heiddo (99.95%) dystysgrifau diogelwch trydanol sy'n llai na phum mlwydd oed, o gymharu â chyfartaledd y sector, sef 98.84%. Drwy gydol y flwyddyn, mae ein cydymffurfedd o ran trydan, asbestos, nwy, hylendid dŵr, diogelwch rhag tân, a lifftiau wedi aros yn uwch na 99%. Rydym wedi gosod 9,334 o larymau carbon monocsid i fodloni deddfwriaeth newydd y Ddeddf Rhentu Cartrefi, gan sicrhau diogelwch tenantiaid. I wella diogelwch rhag tân, cyflogwyd Peiriannydd Tân mewnol a gweithredwyd mesurau fel systemau chwistrellu dŵr i fynd i'r afael â diffygion adeiladau. Gosodwyd systemau chwistrellu dŵr a rhybuddio am wacáu ym mhob adeilad dros 11 metr (cyfanswm o ddeg adeilad), gan leihau perygl tân a thawelu meddwl tenantiaid a Llywodraeth Cymru. Rhoddodd ein Tîm Diogelwch Rhag Tân gyngor ac offer diogelwch i bron 100 o gwsmeriaid agored i niwed neu anabl, gan sicrhau eu diogelwch gartref. Ar 31 Mawrth 2024, roedd pob un o'r 9,935 o gartrefi hunangynhwysol a aseswyd ar gyfer cydymffurfedd â Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) yn bodloni'r safonau, gan gyflawni cydymffurfedd 100%, gan ystyried methiannau derbyniol o ganlyniad i ddewis y preswylwr neu gyfyngiadau ffisegol.



Gwelliannau a gynlluniwyd

Rydym bob amser yn gweithio i wneud ein cartrefi'n well trwy ein rhaglen gwelliannau a gynlluniwyd.

- Buddsoddwyd £18.1 miliwn eleni mewn gwella cartrefi, gan sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn gyfredol, gyda cheginau ac ystafelloedd ymolchi newydd o ansawdd uchel.
- Yn ogystal, gwnaed 434 o addasiadau i alluogi pobl i aros yn eu cartrefi am gyfnod hwy er gwaethaf newidiadau i'w hiechyd ac anabledd.

Cynaliadwyedd amgylcheddol

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cynaliadwyedd amgylcheddol ac effeithlonrwydd ynni i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd a'r argyfwng hinsawdd gymaint â phosibl.

- Gwnaethom wella perfformiad ynni a lleihau ôl troed carbon ein cartrefi presennol, gydag 87% yn cyflawni sgôr o C neu uwch.
- Gwnaethom ddiweddarau 58 o gartrefi i wresogi'n well a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd.
- Mae'r uwchraddiadau hyn yn golygu bod y cartrefi'n haws eu gwresogi ac yn lleihau eu heffaith ar yr amgylchedd.



Astudiaeth achos: Cartref cynhesach Sandra.

Mae Sandra wedi cael gwelliannau thermol sy'n achub bywydau i'w chartref Trivallis yn ddiweddar trwy Raglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio Llywodraeth Cymru. Ganwyd a magwyd Sandra ym Mherthcelyn, ac mae hi'n byw yng nghartref y teulu o hyd. Mae ganddi glefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD), felly mae cynnal y tymheredd iawn yn hollbwysig i'w hiechyd. Cyn yr uwchraddiadau, bu'n rhaid iddi gadw'r gwres yn uchel, a oedd yn ddrud ac yn achosi iddi beswch. Nawr, mae ei chartref yn aros yn gynnes ar wres is, gan haneru ei chostau gwresogi. Mae Sandra'n teimlo'n fwy digyffro, yn hapusach, ac yn falch o'i chartref. Er bod y gwaith wedi tarfu, mae hi'n credu y bu'n werth y drafferth a byddai'n gwneud y cyfan eto yn llawen.



Ôl troed carbon

Yn 2021, gwnaethom gydweithio â SHIFT i asesu ein perfformiad amgylcheddol a sefydlu llinell sylfaen allyriadau carbon, gyda'r nod o ddod yn sefydliad mwy cynaliadwy a llywio cynllunio strategol.

Mae SHIFT bellach wedi darparu trydydd adroddiad ar gyfer 2023, sy'n caniatáu i ni gymharu ar draws y Sector Tai rhwng cymheiriaid ac o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r adroddiad hwn yn ein helpu i gyfleu ein hól troed carbon yn effeithiol i denantiaid a chyflogeion, gan gynyddu ymwybyddiaeth o ymddygiadau a dewisiadau sydd o fudd i'r amgylchedd a'n cymunedau. Mae gennym bellach dair blynedd o ddata a gwybodaeth feincnodi ynglŷn ag allyriadau carbon i fireinio ein cynlluniau ar gyfer lleihau carbon.

Canfyddiadau allweddol:

- Cyfanswm allyriadau blynyddol: Yn 2023, ein hallyriadau carbon oedd 27,526.21 o dunelli o CO₂e, sef 517.24 o dunelli'n llai na llinell sylfaen 2021-22.
- Allyriadau'r stoc dai: Cyfrannodd cartrefi a wresogir yn annibynnol oddeutu 25,439.69 o dunelli o CO₂e y flwyddyn, tra bod cartrefi a gyflenwir yn gymunedol wedi ychwanegu 1,139.63 arall o dunelli o CO₂e.

Gyda'i gilydd, roedd y rhain yn cyfrif am oddeutu 97% o gyfanswm ein hallyriadau blynyddol.

Camau nesaf:

- Asesu meysydd allweddol ar gyfer 2024/25: Canolbwyntio ar ddatgarboneiddio, cynhesrwydd fforddiadwy, y gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd, a gwella bioamrywiaeth.
- Parhau â'r bartneriaeth â SHIFT: Defnyddio eu harbenigedd i ddiffinio, datblygu, a chyflawni cynllun cynaliadwyedd amgylcheddol sy'n cyd-fynd â'n hamcanion corfforaethol, adrodd ar faterion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu, a strategaeth gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru: Archwilio sut gall cyllid y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio gefnogi ein nodau datgarboneiddio.
- Ymgorffori datgarboneiddio: Integreiddio datgarboneiddio i'n fflyd a'n holl weithrediadau busnes lle y bo'n ymarferol.
- Ymgorffori datgarboneiddio: Integreiddio datgarboneiddio i'n fflyd a'n holl weithrediadau busnes lle y bo'n ymarferol.

Trwy edrych ar y data a'r wybodaeth feincnodi o dair blynedd o adroddiadau, gallwn amlygu meysydd gwella allweddol a pharhau i wneud cynnydd tuag at ddod yn sefydliad sy'n fwy cyfrifol yn amgylcheddol.



Rhaglenni adfywio

Rydym yn adfywio cymdogaethau gyda'n prosiectau adfywio mawr. Eleni, rydym wedi cyflawni sawl carreg filltir bwysig.

- Ym mis Medi 2023, dechreuwyd chwilio am bartneriaid i ailddatblygu Penrhys, gyda'r nod o greu cymuned fodern a chynhwysol.
- Yn ystad Cae Fardre ym Mhentre'r Eglwys, gweithiwyd yn agos gyda'r Heddlu a phartneriaid yn yr Awdurdod Lleol i ailddylunio manau cyhoeddus a gwella diogelwch trwy agor manau cymunedol a chael gwared ar hen garejys.
- Yng Nghwrt Mitchell, Tonypany, cydweithiwyd â phreswylwyr i'w hadleoli i eiddo mwy addas, yn barod i amnewid adeiladau â chartrefi newydd fforddiadwy.
- Dechreuodd gwaith adnewyddu ar bedwar bloc o fflatiau ym Mae Caerdydd i fodloni safonau modern.





Ein

gwasanaethau
i denantiaid

Rydym wedi ymrwmo i gefnogi ein tenantiaid a gwneud eu profiad gyda ni yn un cadarnhaol.

Effaith



Galwadau a dderbyniwyd i'r ganolfan gyswllt

95,298



% Galwadau i'r ganolfan gyswllt a atebwyd

89%



% Galwadau a ddatryswyd yn ystod y cyswllt cyntaf

78%



Bodlonrwydd cwsmeriaid

77%



Pobl a gwblhaodd adolygiadau budd-daliadau

371



Tenantiaid a gynorthwywyd i gael Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai

132



Tenantiaid a gafodd gyngor ar Gredyd Cynhwysol

254



Dioddefwyr camdriniaeth a thrais domestig a gefnogwyd

376



Atgyfeiriadau diogelu a wnaed i amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed

40



Incwm tenantiaid a gynyddwyd trwy wasanaethau Cyngor Ariannol

£4,255,521



Pobl a atgyfeiriwyd i raglenni cymorth eraill o fewn Trivallis


4,283

Bodlonrwydd cwsmeriaid

Roeddem wedi amlygu gwella bodlonrwydd tenantiaid fel amcan allweddol ar gyfer y flwyddyn ac wedi cefnogi'r amcan hwn trwy ddatblygu cynllun gweithredu manwl yn ymdrin â phob maes gwasanaeth. O ganlyniad i'r gwaith hwn, cynyddodd bodlonrwydd

tenantiaid i 77% eleni. Gwellodd ein perfformiad ar draws pob maes a fesurir gan yr arolwg blynyddol o denantiaid a phreswylwyr (STAR).

Canlyniadau'r arolwg tenantiaid a phreswylwyr (STAR)



Ffynhonnell: Housemark (% tenantiaid Trivallis a oedd yn cytuno â phob datganiad)



Rhaglenni lles

Gwnaethom barhau i gynnal rhaglenni cymorth ar gyfer tenantiaid unigol a phobl sy'n byw yn Rhondda Cynon Taf.

- Paratoi ar gyfer dechrau tenantiaeth a deall beth mae hyn yn ei olygu (GRAMO)
- Rheoli arian, budd-daliadau, a chyllideb eich aelwyd (Cyngor Ariannol, SAFE a STEPS)
- Atal digartrefedd (SAFE a STEPS)
- Ymgartrefu a gwneud ffrindiau yn y gymdogaeth (SAFE a STEPS)
- Cadw'ch cartref yn ddiogel ac yn daclus (MAGPIE)
- Trefnu apwyntiadau a chael at wasanaethau eraill defnyddiol (SAFE a STEPS)
- Llenwi ffurflenni, darllen post ac ysgrifennu llythyrau pwysig (SAFE a STEPS)
- Manteisio ar gyfleoedd hamdden, sgiliau, a chyflogaeth (SAFE a STEPS)
- Cymorth i aros yn annibynnol (SAFE a STEPS)

Mae ein tîm SAFE, a ariennir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, yn darparu cymorth i atal digartrefedd, gan gynnwys asesiadau ariannol. Mae ein Tîm Cyngor Ariannol (MAT) yn gweithio i gynyddu incwm tenantiaid gymaint â phosibl, rheoli dyledion, a lleihau ôl-ddyledion rhent. Cafodd pawb a gymerodd ran yn y rhaglenni hyn adolygiad ariannol i amlygu budd-daliadau a thaliadau ychwanegol i gynyddu eu hincwm tymor hir. Y llynedd, llwyddodd ymdrechion cyfunol y timau hyn i gynyddu incwm tenantiaid ac aelodau'r gymuned dros £4.2 miliwn. Rydym wedi parhau i gynnig cronfa galedi i gynorthwyo tenantiaid y mae arnynt angen cymorth ariannol brys, tymor byr. Dosbarthwyd talebau bwyd a chyfleustodau a ddaeth i gyfanswm o fwy na £126,000. Yn ogystal, mae ein gwasanaeth MAGPIE yn helpu tenantiaid i reoli celcio, sef mater cymhleth sy'n aml wedi'i wreiddio mewn trawma, trwy symud eitemau ymaith, glanhau'n drylwyr, ac ailgylchu. Yn 2023/24, helpodd MAGPIE 22 o bobl i wella eu hamodau byw, gan eu galluogi i ddeall eu hymddygiad a gwneud cynnydd ar eu cyflymder eu hunain.



Astudiaeth achos: Mrs P yn cynyddu ei hincwm gyda chymorth gan dîm cyngor ariannol Trivallis

Mae Mrs. P bellach yn fwy na £25,000 ar ei hennill bob blwyddyn diolch i'n Tîm Cyngor Ariannol. I ddechrau, sylwodd ei Rheolwr Cyfrif Rhent ei bod yn nesáu at oedran pensiwn y wladwriaeth ac fe gyfeiriodd hi at y Swyddog Cyngor Ariannol, Sue Hoskins. Helpodd Sue Mrs. P i gael ei chod cais pensiwn a chwblhau'r cais. Gwahoddodd Mrs. P i sesiwn galw heibio Cyngor Ariannol i gael cymorth ychwanegol, hefyd.

Cynhaliodd Sue archwiliad budd-daliadau a chanfu fod Mrs. P yn gymwys i gael credyd pensiwn y wladwriaeth, budd-dâl tai, gostyngiad yn y dreth gyngor, a chymorth â'i bil dŵr. Daeth hyn i gyfanswm o £25,537.75 mewn arbedion ac incwm blynyddol ychwanegol.



Mynegodd Mrs. P ei diolchgarwch, gan ddweud bod Sue wedi gwneud gwahaniaeth arwyddocaol i'w bywyd, ac anogodd bobl eraill i geisio cymorth. Mae Sue yn parhau i gynorthwyo Mrs. P ac mae'n pwysleisio pwysigrwydd manteisio ar y cymorth sydd ar gael, gan ddweud bod popeth yn helpu'n ariannol ac yn emosiynol.

Achrediaidau hygyrchedd

Mae gofalu am ein cymunedau yn hollbwysig, ac eleni rydym wedi parhau i ragori mewn tai â chymorth.

- Mae ein gwasanaethau wedi'u hachredu ers 2010 ac maen nhw'n bodloni Safonau Byw'n Annibynnol EROSH, gan ganolbwyntio ar reoli, gwerth, cydraddoldeb, personoli, a diogelwch. Yn 2023, ni oedd y cyntaf i gael ein profi yn erbyn safonau newydd, gan ennill clod uchel gan aseswyr.
- Mewn partneriaeth â'r RNIB, gwnaethom hefyd wella Tai Gwarchod i bobl ag amhariad ar y golwg trwy'r achrediad Visibly Better. Mae'r rhaglen hon yn helpu staff i wneud newidiadau syml i wella annibyniaeth tenantiaid. Mae gan 14 o'n cynlluniau wobwr Aur ac mae gan wyth wobwr Blatinwm, sy'n dangos ein hymrwymiad i ansawdd a gwella.



Ein

cymunedau



Eleni, rydym wedi gweithio'n galed i ymsefydlu ein gwaith o fewn cymunedau a bwrw ymlaen â'n hymagwedd datblygu cymunedol.

Effaith



Ystadau a gyflawnodd safon aur

48%



Achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol yr adroddwyd amdanynt

606%



% yr achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol a ddatryswyd yn ystod y flwyddyn

92%



Gwariant gyda chontractwyr yn ne-ddwyrain Cymru

34m



Gwariant gyda chontractwyr o'r tu allan i Gymru

10m

Cynnwys tenantiaid

Eleni, mae ein tenantiaid a'n huwch aelodau staff wedi cydweithio i wella cyfranogiad tenantiaid mewn gwasanaethau allweddol sy'n effeithio ar ansawdd tenantiaethau. Roedd cyd-ddylunio a chydgyhyrchu gwasanaethau'n cynnwys gweithgorau a grwpiau ffocws wedi'u ffurfio o denantiaid a staff. Mae'r Panel Gweithredu gan Denantiaid yn goruchwyllo'r ymdrechion hyn, gan feithrin cydweithio a sicrhau bod blaenoriaethau tenantiaid yn ffurfio gwasanaethau.

Roedd dulliau ymgynghori gyda'n tenantiaid yn cynnwys arolygon blynyddol, sioeau teithiol, arolygon ystadau ar droed, a chyfranogiad gan Gymdeithasau Tenantiaid a Phreswylwyr i sicrhau bod lleisiau tenantiaid yn cael eu clywed. Cymerodd tua 500 o denantiaid ran mewn arolygon rheolaidd, a chasglodd menter 'cwestiwn y mis' lwyddiannus adborth sylweddol. Mae'r cyfranogiad hwn wedi gwella cyfathrebu, ymddiriedaeth, a bodlonrwydd tenantiaid, a gynyddodd o 71.2% yn 2022 i 77% yn 2023.

Sioeau teithiol cymunedol

Yn ystod yr haf 2023, cynhaliwyd pum Sioe Deithiol Gymunedol ledled cymdogaethau yn Rhondda Cynon Taf.

- Cysylltwyd â'n tenantiaid i ddeall eu blaenoriaethau a chanfod beth oedd yn bwysig. Rydym wedi defnyddio'r adborth i ffurfio'r gwasanaethau a ddarparwn.
- Mynychodd llawer o'n partneriaid y sioeau teithiol, gan roi cyngor i'n tenantiaid ar yr argyfwng costau byw a heriau eraill.



Ystadau gwych

Gwnaethom ymdrech bwrpasol yn 2023/24 i sicrhau bod ein hystadau'n lleoedd gwych i fyw, lle y gall pobl ddibynnu ar eu cymdogion a themlo eu bod yn perthyn. Un ardal o'r fath oedd ystad Cae Fardre, lle yr aildrefnwyd manau cyhoeddus ar yr ystad er mwyn lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gan weithio ochr yn ochr â phartneriaid fel yr Heddlu a'r Awdurdod Lleol, roedd hyn yn cynnwys gwneud mwy o fannau agored, gwella gwelededd, a chyfyngu ar fynediad i ardaloedd preifat a llwybrau anniogel. Dymchwelwyd blociau garejys hefyd. Trwy gael gwared ar y manau ymgynnull hyn, gwnaethom eu hagor a gwneud y llwybrau y tu ôl iddynt yn fwy diogel i'w defnyddio. Yn ystod diwrnod ystad ym mis Chwefror 2024, gweithiwyd gyda phreswylwyr i lanhau manau cymunedol a chael gwared ar wastraff. Bydd y newidiadau hyn yn helpu i atal problemau a gwneud yr ystad yn lle brafach i fyw i bawb.

Partneriaeth ag elusen

Yn 2023, dewisodd ein staff a'n tenantiaid ein partner elusen newydd ar gyfer 2023 - 2025. Gwahoddwyd elusennau lleol i ymgeisio, a chyfwelwyd yr elusennau a gyrhaeddodd y rhestr fer gan ein Grŵp Partner Elusen. Yna, cynhaliwyd pleidlais derfynol gyda staff a thenantiaid, ac ym mis Mai 2023 cyhoeddwyd mai ein partner newydd oedd Plant y Cymoedd. Ein targed yw codi £4k yn ystod y bartneriaeth 2 flynedd, ac rydym wedi codi £1,603 hyd yma.

Gwerth cymdeithasol

Mae ein trefniadau caffael gyda busnesau lleol nid yn unig wedi gwarchod swyddi ond creu gwerth cymdeithasol ychwanegol i'r economi lleol. Rydym wedi chwarae rôl allweddol wrth leihau tldi a hybu ffyniant lleol.

- Gwariwyd £34miliwn gyda chontractwyr wedi'u lleoli yn ne-ddwyrain Cymru, sef 77% o gyfanswm ein gwariant
- Gwariwyd £10miliwn gyda chontractwyr o'r tu allan i Gymru, sef 22% o gyfanswm ein gwariant
- Mae 53% o'r contractwyr yn fusnesau bach a chanolig (BBaChau)





**Ein
pobl**

Rydym wedi gweithio'n galed i ddod yn gyflogwr o ddewis a sicrhau bod ein staff yn darparu gwasanaeth rhagorol i'n tenantiaid.

Effeithiau



Hyfforddiant statudol a gorfodol a gwblhawyd

98%



Diwrnodau a dreuliwyd ar ddatblygu arweinyddiaeth a rheolaeth

1,827%



£ a fuddsoddwyd mewn dysgu a datblygu

£160,000

Ymgysylltu â staff

Mae ein tîm wedi ymrwymo i wneud gwahaniaeth trwy ddarparu cartrefi fforddiadwy a gwasanaethau i'n tenantiaid. Dathlwyd eu llwyddiannau gyda digwyddiadau fel ein gwobrau hir-wasanaeth ym mis Chwefror 2024, lle y rhoddwyd gwobrau i fwy na 100 o gydweithwyr, yr oedd gan rai ohonynt fwy na 40 mlynedd o wasanaeth. Atgyfnerthir ein diben a rennir gan ddiweddariadau rheolaidd gan ein Prif Weithredwr, Duncan Forbes, a sesiynau rhyngweithiol lle mae'r Tîm Gweithredol yn ateb cwestiynau gan gydweithwyr.

Eleni, lanswyd safle mewnwyd newydd, sy'n cynnig plattform i gydweithwyr gael at wybodaeth a rhannu newyddion. Rydym yn gwerthfawrogi bod yn agored, gan gyfathrebu'n onest ynglŷn â'n heriau a dathlu llwyddiannau.

Swyddi o ansawdd uchel

Rydym yn gweithio'n galed i fod yn gyflogwr o ansawdd yn Rhondda Cynon Taf, gan feithrin amgylchedd gwaith lle mae cyflogeion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu, a'u cefnogi. Rydym wedi'n hardystio'n gyflogwr cyflog byw, sy'n gwarantu bod ein cyflogeion yn ennill cyflog sy'n ddigonol i gael safon byw weddus.

- Cyflogir **456** o bobl yn uniongyrchol gan Trivallis
- Mae **76%** o'r staff yn byw yn Rhondda Cynon Taf



Cynhwysiant

Ein gweledigaeth yw bod yn wirioneddol gynhwysol, gan ganiatáu i bawb fod yn nhw eu hunain, cynyddu ymwybyddiaeth, a chydabod buddion aruthrol ein cymuned amrywiol. Ar 31 Mawrth 2024, gellir crynhoi ystadegau ein cydweithwyr fel a ganlyn:



Tarddiad ethnig	Gwyn	416	91%
	Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol	7	2
	Heb ddatgan	31	7
	Gwell gennyf beidio ag ateb	2	0
Rhywedd	Gwrywaidd	249	55%
	Benywaidd	207	45%
Anabled	Ie	26	6%
	Na	430	94%
Cyfeiriadedd rhywiol	Bisexual	6	1%
	Gay (man or woman)	12	3%
	Heterosexual	380	83%
	Undeclared	45	10%
	Prefer not to say	13	3%
Crefydd	Cristion	131	29%
	Crefydd arall	6	1%
	Dim crefydd	253	55%
	Heb ddatgan	52	11%
	Gwell gennyf beidio â dweud	14	3%
Oedran	16 - 19	3	1%
	20 - 29	62	14%
	30 - 39	120	26%
	40 - 49	117	26%
	50 - 59	115	25%
	60 - 64	23	5%
	65+	16	4%

Rydym wedi bod yn canolbwyntio ar ymgorffori arferion Cydraddoldeb, Amrywiaeth, a Chynhwysiant (EDI) da ar draws y sefydliad. Rydym wedi ffurfio partneriaeth â Diverse Cymru, gyda phob swyddogaeth yn mynd trwy broses achredu. Mae hyn wedi cynnwys hyfforddi 24 o bobl ym mhob maes, ac mae cynlluniau i ymestyn hyn i'r holl gydweithwyr y flwyddyn nesaf. Mae'r cynllun gweithredu EDI yn cael ei fonitro gan weithgor EDI a'i oruchwylio gan y Pwyllgor Pobl. Rydym wedi cyflwyno hyfforddiant EDI gorfodol i'r holl gydweithwyr, ac mae'n thema allweddol

yn ein hyfforddiant mewnol, gan gynnwys cwrs Hanfodion Gwych a hyfforddiant recriwtio ein rheolwyr. Rydym hefyd yn archwilio ffyrdd o ymgysylltu â grwpiau cymunedol amrywiol i annog ceisiadau am swyddi. Mae ein cynllun cyflogadwyedd ar waith, ac rydym wedi datblygu cyfres o werthoedd ac ymddygiadau gyda mewnbwn gan yr holl gydweithwyr i bwysleisio pwysigrwydd cynhwysiant. Mae cydweithwyr wedi bod yn gwneud addewidion ynglŷn â gwerthoedd, gan atgyfnerthu ein hymrwymiad i EDI.

Lles

Mae cefnogi lles cydweithwyr yn rhan o'n harferion craidd. Yn ystod y flwyddyn, llofnodwyd ymrwymiad Iechyd Meddwl yn y Gwaith Mind a chwblhawyd arolwg Mynegai Lles Mind, y rhoddwyd cyfle i'r holl gydweithwyr gymryd rhan ynddo. Bydd y canlyniadau'n helpu i lywio Cynllun Iechyd Meddwl a Lles newydd. Yn ogystal, dilynodd cydweithwyr yn ein tîm Cymdogaethau gwrs Mind i wella eu dealltwriaeth o faterion iechyd meddwl, ac roedd rheolwyr a gymerodd ran yn ein rhaglen ddatblygu Hanfodion Gwych wedi ymdrin â'r pwnc hwn hefyd.

Cynigiodd ein Rhaglen Cymorth i Gyflogeion fynediad at wasanaethau cwnsela a helpodd cydweithwyr â biliau meddygol. Cefnogodd ein grŵp lles staff sawl ymgyrch ymwybyddiaeth o iechyd meddwl yn ystod y flwyddyn.

Iechyd a diogelwch

Mae'r Tîm Iechyd a Diogelwch wedi esblygu'n sylweddol eleni. Mae ychwanegu Cynghorydd Iechyd a Diogelwch newydd ac integreiddio'r swyddogaeth Fflyd wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol. Mae anafiadau colli amser ac anafiadau y dylid eu hadrodd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi lleihau, oherwydd cyfradd cwblhau hyfforddiant iechyd a diogelwch gorfodol 98%. Darparwyd hyfforddiant i'r Bwrdd, a sicrhawyd darparwr hyfforddiant iechyd a diogelwch ac iechyd galwedigaethol newydd. Cynhaliwyd archwiliadau diogelwch cerbydau a safleoedd, gan gynnwys diwrnod sicrhau diogelwch a fynychwyd gan y Prif Weithredwr. Bydd fflyd newydd ar brydles yn cael ei darparu yn 2024, a bydd system rheoli fflyd wedi'i phrofi yn gwella effeithlonrwydd ac yn sicrhau bod goryrru a digwyddiadau cerbydau'n cael eu rheoli'n gyson ac yn deg i bob aelod o staff.

Dysgu a datblygu

Ein pobl yw ein hadnodd mwyaf gwerthfawr, sy'n hanfodol i'n cenhadaeth i ddarparu cartrefi i'r rhai sydd â'r angen mwyaf. Rydym yn eu helpu i dyfu yn eu gyrfaoedd gyda rhaglen dysgu a datblygu sy'n cynnwys dysgu mewn ystafell ddosbarth, prentisiaethau, cyrsiau ar-lein, a chymorth ar gyfer cymwysterau proffesiynol.

- Treuliwyd 1,827 o ddiwrnodau ar ddatblygu arweinyddiaeth a rheolaeth yn ystod y flwyddyn.
- Treuliwyd 1,285 o ddiwrnodau ar hyfforddiant iechyd a diogelwch, technegol, gorfodol a statudol, gwasanaeth cwsmeriaid a chyllid.
- Buddsoddwyd £160,000 mewn gweithgareddau dysgu a datblygu.





Ein

systemau data
a digidol

Defnyddiwyd TGCh a data i gefnogi ein huchelgeisiau a buddsoddwyd mewn seilwaith TGCh newydd.

Systemau digidol i gwsmeriaid

Lansiwyd gwefan newydd ar ddiwedd mis Mawrth 2024. Mae'n cynnwys dwy nodwedd newydd: porth hunanwasanaeth (Fy Trivallis) lle y gall tenantiaid ofyn cwestiynau, gwirio atgyweiriadau, talu rhent, a diweddaru manylion; ac offeryn cod post i ddod o hyd i'w swyddog tai, cymhorthfa galw heibio, a manylion archwilio ystad. Mae ymarferoldeb ychwanegol yn cael ei ddatblygu. Rydym yn cydweithio â Chymunedau Digidol Cymru i sicrhau bod yr holl denantiaid yn gallu defnyddio'r offer hyn.

Datblygu systemau mewnol

Buddsoddwyd yn sylweddol mewn sawl system yn ystod y flwyddyn i wella effeithlonrwydd a diogelwch ein prosesau digidol:

- Dynamics Business Central ar gyfer cyllid.
- Rheoli gwaith drysau tân
- Rheoli achosion adfeilio
- Awtomeiddio arolygon bodlonrwydd cwsmeriaid (STAR)
- Prosiectau gwella parhaus ar gyfer cymdogaethau, rhent, cwynion, gan dderbyn adborth gan ddefnyddwyr i wella ymarferoldeb a phrofiad defnyddwyr
- Canoli data iechyd a diogelwch

Seiberddiogelwch

Rydym wedi parhau i gymryd camau i warchod ein sefydliad rhag seiberfygythiadau. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd arbenigwyr annibynnol adolygiad o'n systemau TG i amlygu risgiau.

Rydym eisoes yn cydymffurfio â Cyber Essentials, ac wedi dechrau gweithio tuag at Cyber Essentials Plus. Rydym wedi ymrwmo o hyd i gadw ein data a'n systemau'n ddiogel rhag seiberymosodiadau, gan roi hyder i gwsmeriaid a phartneriaid yn ein harferion diogelwch.





Gwerth am arian

Rhent fforddiadwy

Ym mis Chwefror 2024, y rhent preifat cyfartalog ym Mhrydain Fawr oedd £1,238, sef 9.0% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Cynyddodd y rhent cyfartalog yn ardal Rhondda Cynon Taf 10.4% i £629, a'n rhent cyfartalog ni oedd £445. Er mwyn sicrhau rhent teg a fforddiadwy i'n tenantiaid, gweithredwyd polisi gosod rhent wedi'i seilio ar fodel rhent fforddiadwy Sefydliad Joseph Rowntree ym mis Ebrill 2019. Mae'r fethodoleg Rhent Byw, wedi'i haddasu ar gyfer gwahaniaethau incwm ar draws Rhondda Cynon Taf, yn cysylltu rhent â gallu tenantiaid i dalu. Mae'r polisi hwn yn cynnwys ymgysylltu â thenantiaid ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, a ddangosodd y byddai cynnydd mewn rhent yn cael yr effaith fwyaf ar y rhai sy'n talu eu hunain, yn enwedig pobl 30-64 oed ac sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil. I liniaru'r effeithiau hyn, datblygwyd cynllun gweithredu yn cynnwys ymgysylltiad wedi'i dargedu, cymorth trwy gyngor ariannol, ymyrraeth gynnar ar gyfer ôl-ddyledion, cymorth annibynnol gan Gyngor ar Bopeth, a chronfa galedi. Er gwaethaf y mesurau hyn, cododd ôl-ddyledion tenantiaid ychydig i 3.43%

yn 2023/24, gan ddod i gyfanswm o £1,811,685, sy'n fwy na'r flwyddyn flaenorol.

Gwerth i denantiaid

Ein nod yw bod yn fenter gymdeithasol gynaliadwy sy'n cydbwyso costau ac effeithlonrwydd er mwyn darparu'r gwerth ariannol a chymdeithasol gorau ar gyfer ein cwsmeriaid, ein cartrefi, a'n cymunedau.

Yn 2022, ffurfiwyd gweithgor i ganolbwyntio ar werth am arian sy'n hyrwyddo gwerth am arian, amlygu arbedion, rheoli caffael a chontractau, a sicrhau effeithlonrwydd cyllidebol. Yn ystod 2023/24, cyflawnwyd arbedion o £1,939,130 trwy osgoi costau ac arbedion diriaethol o £1,083,400.

Mae meincnodi ein perfformiad yn ein helpu i wella ein gwasanaethau'n barhaus ac yn darparu cyfeirbwynt ar gyfer gweithredu a rheoli newid yn y sefydliad. Rydym yn cymharu ein perfformiad â'n cymheiriaid trwy'r Cyfrifon Byd-eang a Ffurflenni Parhad Busnes Llywodraeth Cymru.

Mesur	2022	2023	Cyfartaledd y sector 2023
Costau cynnal a chadw cyffredin fesul uned (£)	£1,360	£1,182	£1,392
Costau atgyweiriadau mawr (cyfalaf a reffeniw) fesul uned (£)	£1,935	£1,552	£1,085
Ôl-ddyledion fesul uned tai cymdeithasol (£)	£469	£464	£299
Twf mewn trosiant (%)	5.69%	4.88%	5.4%



Cydnabyddwn effaith costau byw ar ein tenantiaid ac adlewyrchir hyn gan y twf trosiant 5.69%, sy'n is na chynnydd rhent cymdeithasol Llywodraeth Cymru sydd wedi'i gapio ar 6.5%. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu sefyllfa'r flwyddyn flaenorol pan weithredwyd cynnydd 4.88%, a oedd ymhell islaw cyfartaledd y sector.

Mae ôl-ddyledion tenantiaid wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn ac maen nhw'n uwch na chyfartaledd y sector, sy'n adlewyrchu'r heriau sy'n wynebu ein tenantiaid yn dilyn yr argyfwng costau byw. Rydym wedi cymryd camau arwyddocaol i gefnogi ein tenantiaid, gan gadw'r cynnydd mewn rhent islaw'r cynnydd a argymhellwyd gan Lywodraeth Cymru (6.5% ar gyfer 23/24). Fodd bynnag, o ganlyniad i'r ansicrwydd ynglŷn â pherfformiad ôl-ddyledion, mae lefel y ddarpariaeth ariannol wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn.

Mae costau atgyweiriadau cyffredin a mawr wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, ac mae'r cynnydd mewn costau deunyddiau a welir ar draws y sector yn effeithio ar hyn. Ochr yn ochr â hyn, rydym hefyd wedi cynyddu ein buddsoddiad yn y rhaglen amnewid cydrannau o flwyddyn i flwyddyn er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru a safonau diogelwch.



Perfformiad ariannol

Mae'r canlyniadau'n dangos ein twf mewn trosiant a chronfeydd wrth gefn bob blwyddyn, a gefnogir gan gynhyrchu arian parod cadarnhaol. Rydym yn wynebu'r un heriau ariannol ag eraill yn y sector, gan gynnwys meysydd fel pwysau chwyddiant ar gostau, mwy o alw am atgyweiriadau a chynnal a chadw, pwysau ar denantiaid o ran yr argyfwng costau

byw. Mae sefyllfa ariannol gydnerth a reolir yn dda yn allweddol er mwyn i ni allu cyflawni ein huchelgeisiau a'n hamcanion strategol. Pwysleisir capasiti ein mantolen bob blwyddyn trwy brofi senarios ac mae'n parhau i ddangos capasiti i wrthsefyll unrhyw ysgytwadau annisgwyl.

Datganiad incwm cynhwysfawr	2024 £M	(Wedi'i ailddatgan) 2023 £M	2022 £M	2021 £M	2020 £M
Trosiant	63,683	60,254	57,674	56,730	56,139
Gwarged gweithredu	9,334	7,437	11,770	12,023	6,651
Gorswm gweithredu	14.7%	12.3%	20.4%	21.2%	11.8%
Gwarged ar weithgareddau cyffredin cyn treth	6,715	2,916	5,701	9,518	4,944
Gorswm cyn treth	10.5%	4.8%	9.9%	16.8%	8.8%
Cwmpas llog (ebitda)	395.8%	483.2%	502.9%	615.7%	589.4%
Cwmpas llog (ebitda mri)	136.9%	185.7%	230.7%	414.5%	339.6%

Datganiad o'r sefyllfa ariannol	2024 £M	(Wedi'i ailddatgan) 2023 £M	2022 £M	2021 £M	2020 £M
Asedau sefydlog	209,156	195,874	190,905	186,395	182,185
Asedau cyfredol net / (rhwymedigaethau)	23,258	23,932	17,767	15,919	5,097
Credydwyr tymor hir	(42,989)	(37,458)	(41,181)	(50,125)	(41,905)
Benthyciadau	(50,000)	(49,728)	(49,527)	(53,456)	(53,352)
Cronfeydd wrth gefn	139,425	132,620	117,964	98,733	92,024
Gerio	49.6%	47.1%	54.1%	69.8%	83.1%

Datganiad llifoedd arian parod	2024 £M	(Wedi'i ailddatgan) 2023 £M	2022 £M	2021 £M	2020 £M
Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu	16,903	19,630	23,939	23,172	17,336
Llif arian parod net o weithgareddau buddsoddi	(14,768)	(13,277)	(14,132)	(8,695)	(8,687)
Llif arian parod net o weithgareddau ariannu	(3,576)	(3,525)	(7,849)	(3,506)	(3,605)
Mewnlif / (all-lif) arian parod	(1,441)	2,828	1,958	10,9701	5,044

Rheoli trysorlys

Mae ein Pwyllgor Cyllid a Buddsoddi yn goruchwyllo ein gweithgareddau rheoli trysorlys, a ddiffinnir fel, 'Rheoli buddsoddiadau a llifoedd arian parod y sefydliad, ei drefniadau bancio, ei farchnad arian, ei farchnadoedd cyfalaf a'i drafodion deilliadol, a'i bortffolio sicrhad; rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny'n effeithiol; a cheisio cyflawni'r perfformiad gorau posibl yn gyson â'r risgiau hynny.'

Mae hefyd yn goruchwyllo ein strategaeth drysorlys, polisi rheoli trysorlys a pharamedrau risg trysorlys. Mae ein rheolau euraid, sy'n llymach na lefelau cyfamod, yn sicrhau ein bod yn gwneud penderfyniadau sy'n ddarbodus ac yn diogelu'r sefydliad, gan sicrhau bod gorswm diogel bob amser.

Pan fydd cyfleusterau'n cynnwys cyfamodau ariannol, mae'r rhain wedi'u seilio ar gwmpas llog, gerio (faint o weithrediadau'r cwmni a ariennir gan ddyled o gymharu ag ecwiti) a chwmpas asedau (sawl gwaith y gallem ad-dalu ein dyled pe byddem yn hylifo ein hasedau).

Cydymffurfiwyd â'r holl reolau euraid, bodlonwyd yr holl gyfamodau yn ystod y flwyddyn, a rhagfynegodd ein cynllun busnes tymor hir gydymffurfedd parhaus â chyfamodau ar hyd cyfnod y cynllun.


Hylifedd sydd ar gael

Ar 31 Mawrth 2024, roedd gennym £22.6 miliwn o arian parod (2023: £24.0 miliwn), a chyllid dyled o £5 miliwn ar gael ar unwaith (2023: £30 miliwn), gyda chyfanswm o £68.9 miliwn o gyllid wedi'i dynnu i lawr ar hyn o bryd (2023: £67.9 miliwn).


Ffynonellau cyllid a'u proffil aeddfedrwydd

Rydym yn dal portffolio cyllido sy'n cynnwys benthyciadau tymor a chyfleusterau credyd cylchol (RCF). Fodd bynnag, nid oes llawer o amser ar ôl yn y portffolio, gan y bydd mwyafrif y cyfleusterau'n aeddfedu erbyn 2030, felly mae gennym rywffaint o risg ailgylidido ar hyn o bryd.

Yn ystod y flwyddyn ariannol, mae rhywfaint o'r ddyled wedi aeddfedu gan leihau faint o gyllid sydd ar gael. Fodd bynnag, ar 6 Mehefin 2024, cytunwyd ar gyllid newydd i ddisodli'r cyfleusterau presennol. Mae hyn wedi arwain at fenthyciad tymor newydd £25 miliwn â phroffil aeddfedu 15 mlynedd, a chyfleuster credyd cylchol £50 miliwn â phroffil aeddfedu 5 mlynedd, sy'n dileu'r risg ailgylidido.



- Cash
- Term Loan Tranche A
- Term Loan Tranche B
- RCF- Tranche B



- Cash
- Term Loan Tranche A
- Term Loan Tranche B
- RCF- Tranche B

Llywodraethu



Y Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn llywodraethu ein cymdeithas dai ac yn gosod ein cyfeiriad strategol. Mae'n derbyn adroddiadau ar ein cynnydd, ein llywyddiannau, a'n heriau. Mae pob aelod o'r Bwrdd yn ein helpu i gyflawni ein nodau a chydymffurfio â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol.

Ynghyd â'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol, mae'r Bwrdd yn arwain cynllunio strategol ac yn goruchwyllo ein gweithgareddau, gyda'r Prif Weithredwr yn ymdrin â rheolaeth weithredol. Mae'r Bwrdd yn sicrhau bod ein trefniadau llywodraethu yn esblygu yn unol ag amodau sy'n newid ac yn asesu ei sgiliau'n rheolaidd.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys un ar ddeg o aelodau, gan gynnwys un cyfetholedig, sy'n arbenigo mewn llywodraethu, strategaeth, cyllid, eiddo, a rheoli tai. Mae'r aelodau'n gwasanaethu am dymhorau tair blynedd, a hyd at naw mlynedd i gyd. Mae penderfyniadau allweddol yn cael eu neilltuo i'r Bwrdd, tra bod cyfrifoldebau eraill yn cael eu dirprwyo i Bwyllgorau, y Prif Weithredwr, neu'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol.

Materion a neilltuir i'r Bwrdd:

- Pennu cyfeiriad strategol y Grŵp ac amlinellu ei genhadaeth, ei weledigaeth, a'i werthoedd
- Gosod y strategaeth gyffredinol a chynllun y Grŵp
- Monitro hyfywedd a rheolaeth ariannol
- Monitro perfformiad a darparu gwasanaethau
- Gosod y parodrwydd i dderbyn risg a rheoli rheolaethau
- Llywodraethu a'r system ddirprwyo
- Atebolrwydd rhanddeiliaid

Cyfarfodydd y Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod o leiaf chwe gwaith y flwyddyn i wneud penderfyniadau Grŵp mawr ac adolygu cynnydd yn erbyn cynlluniau cymeradwy.

Cadeirydd y Bwrdd

Mae Cadeirydd y Bwrdd yn arwain y Grŵp, gan

gydweithio'n agos â'r Prif Weithredwr. Mae'r Cadeirydd yn sicrhau bod y Bwrdd yn gweithio'n dda a bod ganddo strategaeth glir, ac mae'n diffinio awdurdod rheolwyr ac yn cynnal perthnasoedd allanol. Mae'r Cadeirydd hefyd yn cynnal arfarniad blynyddol y Prif Weithredwr.

Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol

Mae'r Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol yn cefnogi'r Cadeirydd ac yn gwasanaethu fel canolwr ar gyfer cyfarwyddwyr eraill, gan gynnig profiad a gwybodaeth. Mae'r Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol ar gael i helpu i ddatrys anghydfodau a mynd i'r afael â phryderon ynglŷn â'r Cadeirydd, y Prif Weithredwr, neu aelodau eraill o'r Bwrdd.

Ymddiswyddiadau o'r Bwrdd 2023/24

Ymddiswyddodd un Aelod o'r Bwrdd yn ystod y cyfnod ariannol hwn.

Gaynor Morris-Jones – Aelod Cyfetholedig o'r Bwrdd

Penodwyd: 23/05/2023 Ymddiswyddodd: 19/09/2023

Cydnabyddiaeth Ariannol y Bwrdd


Mae cydnabyddiaeth ariannol y Bwrdd, a gefnogir gan adolygiad annibynnol ac ymarfer meincnodi, fel a ganlyn:

- Cadeirydd y Bwrdd - £12,000
- Is-gadeirydd, Cadeirydd Pwyllgorau - £7,250
- Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig o'r Bwrdd - £5,000
- Aelod Cyfetholedig o Bwyllgor Annibynnol - £3,000
- Ni roddir cydnabyddiaeth ariannol i enwebeion i'r Cyngor

Fel y'i cymeradwywyd gan y Bwrdd, bydd cydnabyddiaeth ariannol yn cael ei hadolygu bob tair blynedd gan y Pwyllgor Pobl a fydd yn ystyried meincnodi gyda chymorth trydydd parti annibynnol, cyn gwneud argymhellion i'w hystyried gan y Bwrdd.

Ein Pwyllgorau

Cefnogir y Bwrdd gan chwe Phwyllgor:



Mae'r Pwyllgor Sicrwydd yn sicrhau ein bod yn rheoli risgiau, systemau rheoli, ac archwiliadau yn effeithiol, ac yn bodloni gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol.

Mae'r **Pwyllgor Cyllid a Buddsoddi** yn goruchwyllo perfformiad ariannol, gan gynnwys cyllidebu, cynllunio'r Grŵp, a chymeradwyo prosiectau datblygu newydd. Mae hefyd yn gwerthuso buddsoddiadau TGCh a chyfleoedd newydd y Grŵp.

Mae'r **Pwyllgor Pobl** yn goruchwyllo cynllunio Adnoddau Dynol strategol, datblygu arweinyddiaeth, cyflogaeth a threfniadau cydnabyddiaeth ariannol.

Mae'r **Pwyllgor Asedau a Datblygu** yn sicrhau ansawdd, perfformiad, a gwerth gweithgareddau rheoli asedau a datblygu.

Mae'r **Pwyllgor Gwasanaethau Tenantiaid** yn goruchwyllo ansawdd a gwerth gwasanaethau i breswylwyr, gan gynnwys tai, atgyweiriadau, a chynnwys y gymuned.

Mae'r **Pwyllgor Atodlen 1** yn cymeradwyo esemptiadau o dan Ddeddf Tai 1996 ac yn goruchwyllo ceisiadau aelodaeth i ddal cyfranddaliadau.



Aelodau'r Bwrdd

Nick Beckett

Cadeirydd, ymunodd ar 09/02/2023 (daw ei dymor cyntaf i ben yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynnyddol (CCB) 2026).

Ymunodd Nick â'r Bwrdd ym mis Chwefror 2023, gan ddod â chyfoeth o brofiad manwerthu ac eiddo o'i rôl fel Pennaeth Gweithrediadau yn Hammerson. Mae hefyd yn Gyfarwyddwr Anweithredol ac Ymddiriedolwr profiadol, sy'n ymwneud yn weithredol â grwpiau elusennol.



Angela Priestley

Aelod Cyfetholedig o'r Bwrdd a Chadeirydd y Pwyllgor Sicrwydd, ymunodd ar 22/04/2021 (daw ei thymor cyntaf i ben yn CCB 2026).

Mae Angela wedi gweithio yn y sector tai ers 2010 ac mae'n arwain Gwasanaethau Corfforaethol mewn cymdeithas dai fawr yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae hi'n canolbwyntio ar sicrhau uniondeb a chydymffurfedd, gan gefnogi'r Bwrdd a'r uwch dîm ar yr un pryd ag ymdrechu i gyflawni rhagoriaeth wrth ddarparu gwasanaethau o'r radd flaenaf, gyda phwyslais penodol ar anghenion tenantiaid a newid cadarnhaol.

Carol Kay

Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol, ymunodd ar 09/03/2023 (daw ei thymor cyntaf i ben yn CCB 2026). Mae Carol yn arweinydd tai profiadol a symudodd i Gymru yn 2001 i rymuso defnyddwyr gwasanaethau tai, a gweithiodd yn ddiweddarach fel rheoleiddiwr tai i Lywodraeth Cymru. Mae hi bellach yn gwnselydd, seicotherapydd, a hyfforddwr sy'n arbenigo mewn trawma, ac mae'n gwasanaethu fel Is-gadeirydd Cymorth i Fenywod Caerdydd.



Claire Hutcheon

Aelod Bwrdd Awdurdod Lleol, ymunodd ar 30/07/2021 (daw ei thymor cyntaf i ben yn CCB 2024). Mae Claire wedi bod yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf am fwy na 14 blynedd ac mae'n arwain strategaeth a buddsoddiad tai ar hyn o bryd, gan ganolbwyntio ar ddatblygu polisi a rheoli perfformiad. Mae hi wedi ymrwmo i gynnwys preswylwyr wrth wneud penderfyniadau i ddarparu cartrefi o ansawdd da ac adfywio cymunedau yn Rhondda Cynon Taf.

Craig Middle

Aelod Bwrdd Awdurdod Lleol, ymunodd ar 13/07/2023 (daw ei dymor cyntaf i ben yn CCB 2026). Mae Craig yn arweinydd lleol ymroddedig sy'n byw yn y Rhondda ac mae ganddo gefndir mewn gwasanaeth milwrol ac entrepreneuriaeth grŵp. Mae'n gwasanaethu ar hyn o bryd fel Cyfarwyddwr Ymgysylltu â Chyflogwyr Rhanbarthol De Cymru y Weinyddiaeth Amddiffyn, ar yr un pryd â pharhau â'i rôl yn Lluoedd Wrth Gefn y Fyddin. Ac yntau'n frwdfrydig ynglŷn â gwasanaeth cymunedol, mae'n cadeirio partneriaethau rhanbarthol ac yn ymwneud â grwpiau amrywiol, gan ganolbwyntio ar wneud gwahaniaeth i fywydau pobl.



David Michael

Aelod Cyfetholedig o'r Bwrdd, ymunodd ar 09/03/2023 (daw ei dymor cyntaf i ben yn CCB 2026 – ymddiswyddodd ar 25 Mehefin 2024). Mae David, sy'n aelod o'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ers 1991, wedi dal swyddi uwch mewn cyrff cyhoeddus amrywiol ac mae ganddo brofiad helaeth yn sector tai Cymru. Mae'n gwasanaethu ar hyn o bryd fel aelod o fwrdd Cymdeithas Dai Hendre/Hafod. Mae'n byw yng nghanolbarth Cymru ac mae ganddo gysylltiadau teuluol â chymoedd y de. Mae'n siaradwr Cymraeg rhugl.



Julian John

Aelod o'r Bwrdd a Chadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Tenantiaid, ymunodd ar 28/09/2020 (daeth ei dymor cyntaf i ben yn CCB 2023, daw ei ail dymor i ben yn CCB 2026). Mae Julian, sy'n dod o Lwynypia a Threhafod, wedi dal swyddi uwch mewn elusennau iechyd meddwl mawr yng Nghymru. Ar hyn o bryd, fel Cyfarwyddwr Cyswllt Gweithrediadau ym Mind, mae'n canolbwyntio ar iechyd meddwl, tai, digartrefedd, ac atal hunanladdiad, gan ddefnyddio dros 30 mlynedd o brofiad o helpu unigolion agored i niwed.



Mark Richards

Aelod o'r Bwrdd a Chadeirydd y Pwyllgor Asedau, ymunodd ar 28/04/2021 (daw ei dymor cyntaf i ben yn CCB 2026). Dechreuodd Mark ei yrfa fel syrfêwr mwyngloddio ac adeiladu, ac yna rheolodd gynnal a chadw tai ar gyfer awdurdod lleol a chymdeithas dai fawr. Ar ôl gwasanaethu fel Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol ar gyfer Amgueddfa Cymru, mae bellach wedi rhannol-ymddeol.



Martyn Price

Aelod o'r Bwrdd a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Buddsoddi, ymunodd ar 21/04/2021 (daw ei dymor cyntaf i ben yn CCB 2024). Mae Martyn, sy'n byw ym Merthyr Tudful, yn gyfrifydd siartredig â dros 30 mlynedd o brofiad yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Mae'n arbenigo mewn strategaethau ariannol, cyllid cymdeithasau tai, a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid sy'n darparu gwerth am arian.



Stephen Brooks

Aelod o'r Bwrdd a Chadeirydd y Pwyllgor Pobl, ymunodd ar 28/09/2020 (daeth ei dymor cyntaf i ben yn CCB 2023, daw ei ail dymor i ben yn CCB 2026). Mae Steve yn ymgynghorydd, hyfforddwr, a chyfarwyddwr anweithredol sy'n helpu sefydliadau nad ydynt yn gwneud elw gyda strategaeth, arweinyddiaeth, a llywodraethu. Ffurfiodd Steve Brooks Consulting yn 2021 yn dilyn rolau yn Sustrans, Oxfam, a'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy, ac mae bellach yn cynghori Llywodraeth Cymru.



William Oliver

Aelod o'r Bwrdd, ymunodd ar 21/04/2021 (daw ei dymor cyntaf i ben yn CCB 2024).

Mae Will, sy'n Gyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Gweithrediaeth GIG Cymru ar hyn o bryd, yn defnyddio profiad helaeth o rolau uwch arweinyddiaeth yn GIG Cymru i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sbarduno canlyniadau cadarnhaol. Gyda naw mlynedd o brofiad fel Cyfarwyddwr Anweithredol yn y sector Tai, Gofal, a Chymorth, mae'n gwerthfawrogi gweithio mewn partneriaeth i gyflawni gwasanaethau sy'n cael effaith, gan ddefnyddio ei arbenigedd mewn gwella perfformiad, cynllunio strategol, a rheoli risg.



Tony Deakin

Aelod Pwyllgor Annibynnol, 09/03/2023 (daw ei dymor cyntaf i ben yn CCB 2025). (Aelod Cyfetholedig o'r Bwrdd 26/04/2022 – 09/03/2023)

Mae gan Tony fwy na 25 mlynedd o brofiad o weithio ym maes tai cymdeithasol, fel Cyfarwyddwr Gweithredol ac Aelod o Fwrdd, gyda nifer o wahanol sefydliadau tai gan gynnwys landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, stoc dai a gedwir a sefydliadau rheoli hyd braich. Ymddeolodd ym mis Awst 2019 fel Cyfarwyddwr Adnoddau'r Grŵp yng Nghartrefi Conwy a Chadeirydd Bwrdd Pensiwn LGPS Gwynedd. Mae Tony yn gymrawd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth.



Amrywiaeth y Bwrdd

Rydym yn credu mewn datblygu diwylliant lle mae pawb yn teimlo ei fod yn cael ei gynnwys, gan fod safbwyntiau amrywiol yn arwain at benderfyniadau gwell. Mae cynyddu amrywiaeth a chynhwysiant ar ein Bwrdd yn bwysig i ni. Ymdrechwn i gael ystod eang o gefndiroedd a phrofiad i wella ein penderfyniadau.

Yn y data a ddarperir, mae 11 o Gyfarwyddwyr Anweithredol ac un aelod Pwyllgor Annibynnol. Mae'r trosiant yn ystod y cyfnod hwn yn cynnwys cyfarwyddwyr anweithredol ac aelodau annibynnol.

Rhywedd	9 x Gwrywaidd / 3 x Benywaidd
Oedran Cyfartalog	54.6 oed
Anabledd	1 x Ie 11 x Na
Trosiant	8.3%

Gwnaethom ymuno â rhaglen wybodaeth Gatensby Sanderson yn ystod y flwyddyn, gan ddarparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu i ddarparu aelodau'r Bwrdd o grwpiau lleiafrifol. Cwblhawyd ein lleoliad chwe mis cyntaf ym mis Ebrill 2024 a byddwn yn cymryd rhan yn ein hail leoliad yn fuan. Mae cymorth yn cynnwys mentora gan aelodau profiadol o'r Bwrdd ac ymgymryd â rôl aelod cysgodol o'r Bwrdd.



Y tîm gweithredol

Mae gweithrediadau dydd i ddydd Trivallis a'i is-gwmnïau, sef Porthcwlis Limited a Chartrefi Bae Caerdydd LLP (y Grŵp), yn cael eu rheoli trwy'r Prif Weithredwr a thair Cyfarwyddiaeth.

Duncan Forbes, Prif Weithredwr

Mae Duncan yn arweinydd a chyfreithiwr profiadol â 35 mlynedd o brofiad yn y sectorau cyhoeddus, preifat, a gwirfoddol, yn ogystal â mentrau cymdeithasol a berchnogir gan y gymuned. Mae ganddo gefndir cryf mewn gweithio gyda chymunedau a Grwpiau amrywiol, gan ganolbwyntio ar feysydd fel tai, gwasanaethau cyhoeddus, tlodi, anghydraddoldeb, ac adfywio. Mae ganddo ddiddordeb ac arbenigedd penodol mewn rheoli newid, arweinyddiaeth, llywodraethu, rheoleiddio, a chydlynu gwasanaethau cyhoeddus i wasanaethu'r gymuned yn well. Mae'n frwdfrydig ynglŷn â gwella ansawdd bywyd tymor hir trwy wasanaethau ataliol gwell.

Mae Duncan yn arwain y Grŵp ac yn goruchwyllo'r Swyddogaeth Cynnwys y Gymuned yn uniongyrchol.



Kate Jones, Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl

Mae Kate yn uwch weithiwr proffesiynol profiadol ym maes adnoddau dynol a datblygu galwedigaethol, gyda chefnid cryf mewn rolau arwain ac ar lefel Bwrdd. Mae ganddi arbenigedd helaeth ym meysydd gweddnewid y gweithlu a newid diwylliannol, gyda phrofiad o reoli prosiectau a newid, delio â chysylltiadau cyflogeion cymhleth, a chanfod datrysiadau creadigol i heriau. Ar ôl gweithio i'r GIG yng Nghymru a Lloegr am 14 blynedd, ymunodd Kate â Trivallis yn 2021 ac mae'n gyfrifol am swyddogaethau corfforaethol gan gynnwys Gwasanaethau Pobl, Datblygu Pobl, y Fflyd, lechyd a Diogelwch a Chyfathrebu.

Keiron Montague, Cyfarwyddwr Gweithredol Cymunedau

Mae Keiron, a anwyd ym Maerdy, yn weithiwr tai cymdeithasol proffesiynol sydd â diddordeb brwd mewn trechu tlodi ac adfywio cymunedol. Dechreuodd ei yrfa fel Swyddog Cynnwys y Gymuned ac yna symudodd i waith ieuenctid. Gweithiodd i gymdeithasau tai amrywiol yn ne Cymru cyn ymuno â Trivallis yn 2019 fel Pennaeth Datblygu ac Adfywio. Fe'i penodwyd yn Gyfarwyddwr Gweithredol ym mis Mawrth 2020. Mae hefyd wedi gwasanaethu fel Cynghorydd yn Rhondda Cynon Taf ac Aelod Cymunedol Annibynnol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

Mae Keiron yn gyfrifol am y swyddogaethau gweithredol, gan gynnwys Ymgysylltu â Chwsmeriaid a'r Gymuned, Rheoli Cymdogaethau, Atgyweiriadau Ymatebol, Rheoli Eiddo Gwag, Cynnal a Chadw wedi'i Gynllunio, Rheoli Asedau, Rheoli Ystadau, Datblygu ac Adfywio.



Lisa Pinney, Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau

Ymunodd Lisa â Trivallis ym mis Mai 2023 ac mae ganddi dros 15 mlynedd o brofiad o weithio mewn cymdeithasau tai yng Nghymru. Mae ei rôl yn ymdrin â phob agwedd ar gyllid, trysorlys, llywodraethu, caffael, technoleg, data, a gwella'r Grŵp. Hi yw Ysgrifennydd Cwmni'r Grŵp hefyd. Bu'n gyfrifydd cymwysedig ers bron 30 mlynedd ac mae ganddi MA mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Gyda chefnidir proffesiynol mewn tai, addysg a gweithgynhyrchu, mae Lisa yn hyrwyddo gwerth am arian a sut gall technoleg sbarduno effeithlonrwydd y Grŵp.

Mae Lisa yn gyfrifol am y swyddogaethau corfforaethol, gan gynnwys Cyllid, TG, Data a Gwybodaeth, Perfformiad Corfforaethol, Llywodraethu, Risg a Sicrwydd, Arloesedd, Gwella'r Grŵp, Rheoli Incwm, a Chaffael.

Llywodraethu corfforaethol

Mae Llywodraeth Cymru yn gosod rheolau y mae'n rhaid i gymdeithasau tai eu dilyn er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n dda. Mae'r rheolau hyn yn cyd-fynd â Chod Llywodraethu Tai Cymunedol Cymru. Bob blwyddyn, mae'n rhaid i gymdeithasau tai adolygu ac adrodd ar eu trefniadau llywodraethu, ansawdd cartrefi a gwasanaethau, a'u hiechyd ariannol.

Cod Llywodraethu Mabwysiedig

Rydym wedi mabwysiadu Cod Llywodraethu 2021 Tai Cymunedol Cymru i ymgorffori'r arferion a'r egwyddorion llywodraethu da a gynhwysir yn y cod.

Rheoleiddio

Adroddwyd y llynedd ein bod wedi cychwyn ymgymeriad gwirfoddol gyda'r Rheoleiddiwr ym mis Mawrth 2022. Datryswyd hyn yn 2023. Mae'r asesiad rheoleiddiol wedi cael ei gwblhau ac rydym yn cydymffurfio'n llwyr o ran llywodraethu a rheoli, hyfywedd ariannol, ac arweinyddiaeth.

Mis Hydref 2023

Trivallis Limited – L143

Dyfarniad

Mae'r Bwrdd yn ystyried ei gyfrifoldebau o ddifrif ac mae'n sicrhau ei fod yn dilyn yr holl reolau a chanllawiau rheoleiddiol. Mae'n cadw ei wybodaeth yn gyfredol ac yn goruchwyllo cydymffurfedd â'r Fframwaith Rheoleiddiol a Chod Tai Cymunedol Cymru.



Llywodraethu a gwasanaethau tenantiaid

Cydymffurfio

Gwyrdd

Mae'r Gymdeithas yn bodloni'r safonau rheoleiddiol a bydd yn cael goruchwyliaeth reoleiddiol arferol.

Cydymffurfio

Gwyrdd

Mae'r Gymdeithas yn bodloni'r safonau rheoleiddiol a bydd yn cael goruchwyliaeth reoleiddiol arferol.

Adroddiad y Pwyllgor Sicrwydd

Angela Priestley, Cadeirydd y Pwyllgor

Dyma fy adroddiad cyntaf fel Cadeirydd y Pwyllgor Sicrwydd, ac rwy'n ddiolchgar i'r Cadeirydd blaenorol, Martyn Price, a ymddiswyddodd fel Cadeirydd ar 6 Medi 2023, am ei gymorth drwy gydol y cyfnod pontio. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys cyfarwyddwyr anweithredol annibynnol a chanddynt ystod o sgiliau sy'n briodol i'r sector a phrofiad ariannol perthnasol.

Er bod y Pwyllgor yn gweithredu'n annibynnol ar y Weithrediaeth, mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor i ddarparu gwybodaeth ac eglurder ynglŷn â phynciau penodol. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor yn gallu manteisio ar arbenigedd cynghorwyr a swyddogaethau rheoli allweddol, gan gynnwys yr archwilwyr mewnol ac allanol.

Cyfarfu'r Pwyllgor bum gwaith yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion y cylch gwaith. A minnau'n Gadeirydd y Pwyllgor, rwy'n trafod y meysydd ffocws allweddol gydag aelodau'r Pwyllgor ac yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd ar weithgareddau'r Pwyllgor a materion perthnasol. Mae'r Bwrdd yn cael copi o gofnodion y Pwyllgor.

Yn yr un modd â gweddill y sector tai yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig, mae 2023/24 wedi parhau i fod yn heriol i Trivallis o ganlyniad i ffactorau allanol parhaus sydd wedi arwain at chwyddiant uchel, yr argyfwng costau byw ac ansicrwydd gwleidyddol. Yn ogystal, rydym wedi wynebu heriau lleol wrth barhau i ymateb i'r cynllun gweithredu ymgymieriad gwirfoddol, gan gyflawni statws cydymffurfio gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2023.

Mae gwaith y Pwyllgor Sicrwydd yn allweddol i roi cyngor, goruchwyliaeth a sicrwydd i'r Bwrdd fod gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol yn cael eu bodloni a bod prosesau rheoli risg a rheoli mewnol yn effeithiol. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y Grŵp yn cyflawni ei amcanion cydfuddiannol cymunedol fel y gallwn barhau i fuddsoddi mewn cartrefi a galluogi cymunedau i ffynnu.

Mae'r Pwyllgor yn parhau i graffu ar adroddiadau ariannol ac asesu eu cyfanrwydd, yn ogystal â goruchwyllo gwaith ein harchwilwyr mewnol ac allanol, sy'n darparu her gadarn ac yn awgrymu meysydd i'w gwella o fewn ein fframwaith rheoli mewnol. Ymdriniodd yr archwiliadau a gynhaliwyd eleni ag ystod o agweddau gweithredol, a mabwysiadwyd argymhellion arfer gorau.

Darparwyd swyddogaeth archwilio allanol y Grŵp ar gyfer 2023/24 gan Haines Watts. Darparwyd y swyddogaeth archwilio mewnol gan Mazars. O leiaf unwaith y flwyddyn, mae'r Pwyllgor yn cyfarfod â'r archwilwyr mewnol ac allanol heb reolwyr yn bresennol.

Adolygwyd effeithiolrwydd y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn. Daethpwyd i'r casgliad fod y Pwyllgor yn parhau i gyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol ac mewn ffordd sy'n gymesur, yn gyson, yn dryloyw, ac yn atebol.



Rheoli risg

Mae risgiau rheoleiddiol, enw da, ariannol a chydymffurfio sylweddol yn gysylltiedig â llawer o'n gweithgareddau. Felly, mae rheoli risg yn effeithiol yn allweddol i'n busnes a chyflawni ein hamcanion corfforaethol.

Mae Bwrdd y Grŵp yn gyfrifol am reoli risg yn gyffredinol ac yn pennu goddefgarwch y Grŵp i risg. Goruchwylir ein fframwaith risg gan y Pwyllgor Sicrwydd ac mae'r Bwrdd yn monitro'r prif risgiau busnes sy'n wynebu'r sefydliad.

Mae ein hymagwedd at reoli risg yn canolbwyntio ar y model "tair llinell sicrwydd":

Mae ein dull o reoli risg yn canolbwyntio ar y Model "Tri Llinellau Sicrwydd"



Llinell sicrwydd gyntaf

Staff a diwylliant, ein polisïau a'n cymwyseddau



Ail linell sicrwydd

Ein timau cydymffurfio. Mae timau cydymffurfio a llywodraethu arbenigol ar waith i nodi risg a chydymffurfiaeth



Trydydd llinell sicrwydd

Archwiliadau annibynnol gan arbenigwyr trydydd parti, a oruchwylwyd gan y Pwyllgor Sicrwydd



Risgiau strategol allweddol

Risg	Mesurau Lliniaru	Sgôr
<p>Seiberddiogelwch</p> <p>Nid yw ein darpariaethau seiberddiogelwch a'n hymarferoldeb TGCh yn addas i'r diben.</p>	<p>Mae gwaith helaeth wedi'i wneud gydag ymgynghorwyr allanol i fonitro systemau'n rhagweithiol yn barhaus.</p> <p>Mae cynlluniau gweithredu'n parhau i gael eu rhoi ar waith i sicrhau bod y seilwaith, prosesau, hyfforddiant a monitro yn addasu yn unol â datblygiadau technolegol.</p>	Uchel
<p>Datgarboneiddio a Safon Ansawdd Tai Cymru 2023</p> <p>Ni allwn fforddio bodloni targedau'r llywodraeth ar gyfer datgarboneiddio a safonau newydd Safon Ansawdd Tai Cymru.</p>	<p>Mae ariannu gwaith datgarboneiddio yn parhau i fod yn her allweddol i Lywodraeth Cymru a'r sector ehangach. Bydd cynllun busnes 30 mlynedd a gefnogir gan y rhaglen cynnal a chadw 3 blynedd gynlluniedig yn ceisio creu capasiti ariannol i fynd i'r afael â rhai o'r heriau ar draws y sector.</p>	Canolig
<p>Cynnwys tenantiaid</p> <p>Nid yw ymgysylltu â thenantiaid yn dylanwadu ar lefel strategol.</p>	<p>Mae cynigion ar gyfer mwy o ymgysylltu rhwng y Bwrdd, y Tîm Arweinyddiaeth Weithredol a'r Panel Gweithredu gan Denantiaid wedi cael eu rhoi ar waith. Mae cynlluniau gwaith yn cael eu rhannu'n rheolaidd, ac mae aelodau o'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol a'r Bwrdd yn mynychu'r Panel Gweithredu gan Denantiaid. Mae Cadeirydd y Panel Gweithredu gan Denantiaid yn mynychu pob cyfarfod Bwrdd.</p>	Canolig
<p>Newid i'r galw am wasanaethau</p> <p>Climate change, increased stress and poor mental health create a change in service demand and impacts service delivery.</p>	<p>Rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid allanol i sicrhau bod dulliau atgyfeirio priodol ar waith i ddarparu cymorth addas i denantiaid.</p> <p>Rydym hefyd yn parhau i weithio gydag ymgynghorwyr allanol i ddeall y cyfleoedd a'r heriau sy'n deillio o'r newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn cynnwys rhagfynegi effeithiau'r newid yn yr hinsawdd cyn prynu tir, amlygu ac asesu deunyddiau sy'n ymateb i'r hinsawdd a thechnegau adeiladu newydd, yn ogystal ag archwilio datrysiadau ynni glân.</p>	Canolig
<p>Cyflog cyfartal</p> <p>Absence of a job evaluation process could lead to equal pay claims.</p>	<p>Aseswyd ein holl rolau yn unol â'r farchnad yn 2023 i liniaru risg hawliadau cyflog cyfartal. Mae prosiect gwerthuso swyddi ar waith i sicrhau bod ein swydd-ddisgrifiadau'n addas i'r diben ar gyfer gwerthusiad yn 2024. Rydym yn parhau i adolygu ac adrodd ar ein data am y bwlch cyflog rhywedd yn flynyddol, sydd wedi gwneud cynnydd da.</p>	a Canolig Medium

Datganiad o gyfrifoldebau'r Bwrdd

Mae'n rhaid i'r Bwrdd baratoi'r Adroddiad Strategol, Adroddiad y Bwrdd, a datganiadau ariannol yn ôl y gyfraith.

O dan y gyfraith Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol, mae'n rhaid i'r Bwrdd greu datganiadau ariannol bob blwyddyn sy'n dilyn safonau cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys FRS 102. Mae'n rhaid i'r datganiadau hyn roi darlun gwir a theg o berfformiad a sefyllfa ariannol y Grŵp.

Wrth baratoi'r datganiadau hyn, mae'n rhaid i'r Bwrdd:

- Ddewis polisiau cyfrifyddu priodol a'u cymhwyso'n gyson
- Gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol a darbodus
- Dilyn safonau cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig a'r Datganiad Arferion Argymelledig, gan nodi unrhyw wriadau arwyddocaol
- Asesu a datgelu gallu'r Grŵp i barhau fel busnes gweithredol
- Defnyddio'r sail busnes gweithredol oni bai na ellir osgoi ei ddatod neu roi'r gorau iddo

Mae'n rhaid i'r Bwrdd gadw cofnodion ariannol cywir sy'n cydymffurfio â deddfau perthnasol ac sy'n galluogi paratoi datganiadau ariannol cywir. Mae'n rhaid iddo weithredu rheolaethau mewnol i sicrhau cywirdeb y datganiadau hyn a chymryd camau i warchod asedau'r Grŵp rhag twyll a mathau eraill o afreoleidd-dra.

Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am gynnal cyfanrwydd y wybodaeth gorfforaethol ac ariannol ar wefan y Grŵp, gan gydnabod y gallai deddfau datganiadau ariannol y Deyrnas Unedig fod yn wahanol i'r rhai hynny mewn gwledydd eraill.

Busnes gweithredol

Ar ôl adolygu cyllideb 2024/25 y Grŵp, cynllun 30 mlynedd y Grŵp, a gweithdrefnau strategol, mae'r Bwrdd o'r farn bod gan y Grŵp ddigon o adnoddau i barhau i weithredu am ddeuddeg mis o leiaf o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol.

Datgelu gwybodaeth i'r archwilydd

Mae aelodau'r Bwrdd yn cadarnhau, hyd eithaf eu gwybodaeth, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'n hysbys i'r archwilydd. Mae pob aelod wedi cymryd camau angenrheidiol i sicrhau ei fod yn ymwybodol o wybodaeth archwilio berthnasol a bod yr archwilydd yn cael gwybod.

Archwilydd

Mae Haines Watts Wales LLP wedi cytuno i barhau fel archwilydd y Grŵp.

Cymeradwywyd gan y Bwrdd a llofnodwyd ar ei ran gan:



Nick Beckett, Cadeirydd
Gorffennaf 2024



Datganiad rheolaeth fewnol

A ninnau'n landlord cymdeithasol cofrestredig, mae Llywodraeth Cymru yn mynnu ein bod yn adrodd ar reolaethau mewnol. Rheolaethau mewnol yw'r systemau a'r prosesau a roddwn ar waith i leihau risg i'r eithaf, bodloni rhwymedigaethau rheoleiddiol a sicrhau bod gwybodaeth ac asedau'r busnes yn aros yn ddiogel. Mae rheolaethau mewnol effeithiol yn golygu y gallwn sicrhau bod ein hadnoddau'n cael eu defnyddio yn y meysydd lle y mae'r angen mwyaf amdanynt.

Mae elfennau allweddol y system rheolaeth fewnol yn sicrhau:

- Bod cyfrifoldebau'n cael eu rhannu rhwng y Bwrdd, Pwyllgorau, a'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol, gyda chylch gwaith clir ar gyfer pob un.
- Bod polisiau a gweithdrefnau ffurfiol ar waith sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r rhain yn cynnwys dogfennau sy'n ymwneud ag awdurdodau dirprwyedig i Bwyllgorau, Cyfarwyddwyr Gweithredol a staff; a systemau gwybodaeth allweddol sy'n cyfyngu'n ffisegol ar ddefnyddio asedau Trivallis heb awdurdod.
- Mae cyllidebau a rhagfynegiadau gyda dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu paratoi a'u hadolygu'n rheolaidd, gan ganiatáu i'r Bwrdd fonitro'r prif risgiau busnes a pherfformiad ariannol yn erbyn y cynlluniau gweithredol ac ariannol a osodwyd ar gyfer y flwyddyn gyfredol, yn ogystal â'r tymor canolig a'r tymor hir. Cynhyrchir cyfrifon rheoli yn fisol ac adroddir ar amrywiadau perthnasol o gyllidebau ac ymchwilir iddynt, fel y bo'n briodol.
- Cyflogir aelodau staff profiadol a chanddynt gymwysterau addas, ac mae eu perfformiad yn cael ei fonitro trwy system arfarnu flynyddol a chyfarfodydd un i un rheolaidd.
- Mae Cyfarwyddwyr yn adrodd i'r Pwyllgor Sicrwydd bob tri mis ar unrhyw eitemau a allai effeithio ar reolaethau mewnol a'u heffeithiolrwydd. Yn ystod y flwyddyn, datrysodd a chaeodd y Bwrdd yr ymgymeriad gwirfoddol â Llywodraeth

Cymru. Roedd yr asesiad rheoleiddiol a gyhoeddwyd ar 06/10/2023 yn wyrdd ac roedd yn wyrdd ar gyfer Hyfywedd Ariannol a Llywodraethu a Gwasanaethau i Denantiaid.

- Mae'r Pwyllgor Sicrwydd yn adolygu'r fframwaith sicrwydd, adroddiadau gan reolwyr, yr archwilydd mewnol, a'r archwilydd allanol, i asesu effeithiolrwydd y rheolaethau sydd ar waith a sicrhau bod prosesau'n cael eu dilyn yn gywir. Cymerir camau unioni i gywiro gwendidau a amlygir ac adroddir arnynt i'r Bwrdd a / neu Bwyllgorau yn rheolaidd. Nid oedd unrhyw adroddiadau archwilio mewnol â sicrwydd cyfyngedig yn ystod y flwyddyn.
- Mae'r holl fentrau newydd, ymrwymadau mawr, a buddsoddiadau newydd arwyddocaol yn ddarostyngedig i weithdrefnau awdurdodi ffurfiol yn unol â'r Cynllun Awdurdod Dirprwyedig.
- Mae'r Bwrdd a Phwyllgorau yn edrych ar raglenni gwella parhaus ar gyfer y prif feysydd busnes ac yn adolygu cynnydd wrth weithredu newidiadau gweithredol mawr a amlygwyd mewn cynlluniau gweithredol.
- Mae'r Bwrdd wedi datblygu datganiadau parodrwydd i dderbyn risg sy'n rhoi fframwaith clir i'r Weithrediaeth a thimau Uwch Reoli weithredu, gan ganiatáu arloesedd wrth ddatblygu busnes ar yr un pryd â sicrhau bod llywodraethu gweithredol yn flaenoriaeth allweddol o hyd.
- Mae'r Bwrdd wedi cynnal adolygiad ffurfiol o effeithiolrwydd rheolaethau rheoli risg a rheolaethau mewnol sy'n bodoli yn y Grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024. Ystyriwyd bod yr holl reolaethau ariannol eu natur yn effeithiol.

Mae'r fframwaith rheolaethau mewnol wedi cael ei adolygu'n rheolaidd a'i gryfhau, ac mae fframwaith rheoli mewnol llawn ar waith yn unol ag arfer gorau Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector.

Ymgysylltu â thenantiaid

Mae ein hymgysylltiad â thenantiaid yn caniatáu i ni wirio a phrofi ein bod yn darparu cartrefi a gwasanaethau i denantiaid sy'n bodloni eu hanghenion ar yr un pryd â chynnal lefelau uchel o fodlonrwydd tenantiaid. Mae ein strwythur llywodraethu yn cynnwys tair lefel ymgysylltu â thenantiaid:

- Lefel 1 – Mewnbwn. Dyma grŵp o denantiaid sydd wedi gwirfoddoli eu hamser i roi adborth trwy arolygon a grwpiau ffocws untro. Fe allai hyn fod ar gyfer unrhyw faes gwasanaeth, a defnyddir eu gwaith yn aml i ddarparu data a gwybodaeth ar gyfer y ddwy lefel arall o ymgysylltiad.
- Lefel 2 – Dylanwadu. Ar y lefel hon, mae tenantiaid yn ymwneud â goruchwyllo, monitro a gwella gwasanaeth penodol neu faes penodol o'r busnes. Mae'r maes hwn yn cynnwys ein grwpiau Atgyweiriadau, Cwynion ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.
- Lefel 3 – Ysbrydoli. Mae'r lefel hon yn cynnwys ein Panel Gweithredu gan Denantiaid, sef ein tenantiaid "mwyaf cysylltiedig" sy'n gweithio gyda ni i sicrhau bod tenantiaid yn ymwneud â phenderfyniadau strategol allweddol ar draws pob maes o'r busnes.

Atebolrwydd Cyfarwyddwyr

Mae'r Grŵp yn cynnal yswiriant indemniad, yn ddarostyngedig i'r amodau a amlinellir yn Adran 234 Deddf Cwmnïau 2006, sy'n amddiffyn holl aelodau'r Bwrdd, Pwyllgorau neu staff neu wirfoddolwyr rhag hawliadau a wneir yn eu herbyn yn rhinwedd eu swydd fel cynrychiolwyr y Grŵp.

Cyflogeion

Mae cryfder y Grŵp yn deillio o ansawdd ac ymrwymiad ei gyflogeion. Mae gallu'r Grŵp i gyflawni ei amcanion a'i ymrwymadau i denantiaid mewn modd effeithlon ac effeithiol yn dibynnu ar gyfraniad cyflogeion ar draws y Grŵp. Rydym wedi ymrwmo i gyfle cyfartal i'n holl gyflogeion a chefnogi cyflogi pobl anabl. Rydym yn cefnogi ystod o fentrau iechyd a lles, a arweinir gan groestoriad o staff a gyflogir gan y Grŵp.

Y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern

Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo Datganiad

Tryloywder ynglŷn â'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern yn unol ag adran 54 Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, sydd ar gael ar wefan y Grŵp.

Datgelu gwybodaeth i Archwilwyr

Mae'r Bwrdd yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilydd y Grŵp yn ymwybodol ohoni. Mae'r Bwrdd hefyd yn cadarnhau ein bod wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi'u cymryd i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth berthnasol ac i gadarnhau bod archwilydd Trivallis a'i is-gwmnïau, sef Porthcwlis Limited a Chartrefi Bae Caerdydd LLP, yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

A minnau'n Gadeirydd y Bwrdd, rwyf wedi ystyried y rheolaethau mewnol a oedd ar waith ar gyfer 2023-24 a chredaf fod y fframwaith ar gyfer y cyfnod hwn yn ddigonol ac yn effeithiol.

Cymeradwywyd gan y Bwrdd a llofnodwyd ar ei ran gan:



Nick Beckett, Cadeirydd Gorffennaf 2024



Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Trivallis Limited (y 'Gymdeithas') a'i his-gwmni (y Grŵp) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024, sy'n cynnwys y Datganiad Cyfunol o Incwm Cynhwysfawr, y Datganiad Cyfunol a Chymdeithas o Newidiadau i Gronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Cyfunol a Chymdeithas o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Cyfunol o Lifoedd Arian Parod a'r nodiadau i'r datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu arwyddocaol yn nodyn 1. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith gymwys a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys FRS 102 "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon" (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion y Grŵp a'r Gymdeithas ar 31 Mawrth 2024, ac o incwm a gwariant y Grŵp ac incwm a gwariant y Gymdeithas ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol y Deyrnas Unedig; ac
- wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, Rheoliadau Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol (Cyfrifon Grŵp) 1969, atodlen 1 Deddf Tai ac Adfywio 2008 a Phenderfyniad Cyffredinol Gofynion Cyfrifyddu ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2015.

Sail y farn

We conducted our audit in accordance with Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y Deyrnas Unedig (ISAs (UK)) a'r gyfraith gymwys. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran o'n hadroddiad ar gyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol. Rydym yn annibynnol ar y Grŵp a'r Gymdeithas yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac

rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'n barn.

Casgliadau ynglŷn â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad fod defnydd y Bwrdd o'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith a gyflawnwyd gennym, nid ydym wedi amlygu unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol am allu'r Grŵp neu'r Gymdeithas i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Mae ein cyfrifoldebau ni a chyfrifoldebau'r Bwrdd mewn perthynas â busnes gweithredol wedi'u disgrifio yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a geir yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol ac adroddiad ein harchwilydd arnynt.

Nid yw ein barn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny.

O ran ein cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried p'un a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol, neu'r wybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad, neu ei bod yn ymddangos fel arall ei bod wedi'i chamddatgan yn berthnasol. Os amlygwn anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i ni benderfynu p'un a oes camddatgan perthnasol yn y datganiadau ariannol neu gamddatgan perthnasol yn y wybodaeth arall.

Os deawn i'r casgliad, ar sail y gwaith a gyflawnwyd gennym, fod camddatgan perthnasol o ran y wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni adrodd y ffaith honno. Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

Barn am y materion a ragnodir o dan Gylchlythyr Cymdeithasau Tai RSL02/10 "Rheolaethau mewnlol ac adrodd"

Yn ein barn ni, mewn perthynas â datganiad y Bwrdd ar reolaeth ariannol fewnlol:

- mae'r Bwrdd wedi darparu'r datgeliadau sy'n ofynnol gan y Cylchlythyr ac nid yw'r datganiad yn anghyson â'r wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni o'n gwaith archwilio ar y datganiadau ariannol.

Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt drwy eithriad

Nid oes gennym unrhyw beth i adrodd yn ei gylch mewn perthynas â'r materion canlynol y mae Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 neu Ddeddf Tai ac Adfywio 2008 yn mynnu ein bod yn adrodd arnynt i chi, os, yn ein barn ni:

- nad yw'r Gymdeithas wedi cynnal system foddhaol o reolaeth dros drafodion; neu
- nad yw'r Gymdeithas wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol; neu
- nad yw datganiadau ariannol y Gymdeithas yn cytuno â'r llyfrau cyfrifon; neu
- nad ydym wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n angenrheidiol at ddibenion ein harchwiliad.

Cyfrifoldebau'r Bwrdd

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y datganiad o gyfrifoldebau'r Bwrdd a amlinellwyd ar dudalen XX, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol a bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg, ac am y gyfryw reolaeth fewnlol ag y mae'r Bwrdd yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol i allu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd rhag camddatganiadau o bwys, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am asesu gallu'r Grŵp a'r Gymdeithas i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu materion sy'n gysylltiedig â busnes gweithredol, fel y bo'n berthnasol, a

defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Bwrdd yn bwriadu datod y Grŵp neu'r Gymdeithas neu roi'r orau i weithredu, neu nad oes ganddo ddewis amgen realistig heblaw am wneud hynny.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynglŷn â ph'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd rhag camddatgan perthnasol, p'un a achoswyd hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (UK) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol pe gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Manylir isod ar i ba raddau y gall ein gweithdrefnau ddatgelu afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll:

Rydym yn amlygu ac asesu risgiau camddatgan perthnasol yn y datganiadau ariannol, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu wall, yn dylunio a chyflawni gweithdrefnau archwilio sy'n ymatebol i'r risgiau hynny, ac yn cael tystiolaeth archwilio sy'n ddigonol ac yn briodol i roi sail i'n barn.

Mae ein gweithdrefnau cynllunio yn amlygu'r fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol sy'n berthnasol i weithrediadau a datganiadau ariannol y Gymdeithas. Adolygir y rhain yn fewnlol gyda'r tîm archwilio, gan gynnwys profiad a disgwyliadau perthnasol o'r diwydiant, yn ogystal ag yn allanol gyda'r rheolwyr cleient. Y deddfau a'r rheoliadau allweddol a ystyriwyd gennym yn y cyd-destun hwn oedd; Safon Adrodd Ariannol (FRS) 102, Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, Deddf Tai ac Adfywio 2008 a Phenderfyniad Cyffredinol Gofynion Cyfrifyddu ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2015.

Pan fyddant wedi'u hamlygu, rydym yn asesu risgiau camddatganiadau perthnasol o ran y deddfau a'r rheoliadau, afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, ac yn addasu ein profion yn unol â hynny.

Mae ein gweithdrefnau archwilio'n cynnwys:

- Holi'r Bwrdd ac adolygu gohebiaeth a chofnodion cyfarfodydd y Bwrdd am dystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau perthnasol. Adolygwyd rheolaethau sydd ar waith gan y Bwrdd hefyd, lle y bo'r angen, i sicrhau cydymffurfedd, a'r adroddiadau a ddarparwyd gan yr archwilwyr mewnol.
- Cawsom ddealltwriaeth o'r rheolaethau sydd ar waith gan y Bwrdd i atal a chanfod twyll.
- Holwyd y Bwrdd ynglŷn ag unrhyw achosion o dwyll a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod cyfrifyddu.
- Trafodwyd risg twyll a diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau a thwyll o fewn y tîm archwilio a chynlluniwyd a chynhaliwyd profion i fynd i'r afael â'r rhain. Amlygwyd y potensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: deddfau yn gysylltiedig ag adeiladu a darparu tai cymdeithasol, gan gydnabod natur gweithgareddau'r Grŵp a natur reoleiddiedig gweithgareddau'r Grŵp.
- Gwerthuso priodoldeb polisiau cyfrifyddu a ddefnyddiwyd a rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu a datgeliadau cysylltiedig a wnaed gan y Bwrdd.
- Gwerthuso cyflwyniad, strwythur a chynnwys cyffredinol y datganiadau ariannol, gan gynnwys y datgeliadau, a ph'un a yw'r datganiadau ariannol yn cynrychioli'r trafodion a'r digwyddiadau sy'n sail iddynt mewn modd sy'n cyfleu darlun teg.
- Adolygwyd datgeliadau datganiadau ariannol a phrofwyd dogfennau ategol i asesu cydymffurfedd â'r deddfau a'r rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod.
- Holwyd y Bwrdd ynglŷn ag ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl.
- Cyflawnwyd gweithdrefnau dadansoddol i amlygu unrhyw berthnasoedd anarferol neu annisgwyl a allai fod yn arwydd o risgiau camddatgan perthnasol o ganlyniad i dwyll.
- Wrth fynd i'r afael â risg twyll drwy ddiystyru rheolaethau mewnol gan reolwyr, profwyd priodoldeb cofnodion dyddlyfrau ac aseswyd p'un a oedd y dyfarniadau a wnaed wrth

wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl.

Rydym yn cyfathrebu â'r rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a amlygwn yn ystod ein harchwiliad.

Er bod yr archwiliad wedi'i gynllunio a'i gynnal yn unol ag ISAs (UK), mae risg na ellir ei hosgoi na fydd camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol yn cael eu canfod o ganlyniad i gyfyngiadau cynhenid yr archwiliad ac, oherwydd eu natur, bod unrhyw achosion o'r fath o dwyll neu afreoleidd-dra yn debygol o gynnwys cydgynllwynio, ffugio, camliwio bwriadol, neu ddiystyru rheolaethau mewnol.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n Hadroddiad Archwilwyr.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd mewn perthynas â Chylchlythyr Tai Cymru HFW 02/10 "Rheolaethau mewnol ac adrodd"

Rydym yn adolygu p'un a yw datganiad y Bwrdd ar reolaeth ariannol fewnol yn adlewyrchu cydymffurfedd y Gymdeithas â Chylchlythyr Cymdeithasau Tai RSL 02/10 "Rheolaethau mewnol ac adrodd" ac adroddwn ar b'un a yw'r datganiad yn anghyson â'r wybodaeth yr oeddem yn ymwybodol ohoni o'n harchwiliad o'r datganiad ariannol. Nid yw'n ofynnol i ni ffurfio barn am effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol y Gymdeithas na'i rheolaeth ariannol fewnol.

Defnyddio'r adroddiad

Gwneir yr adroddiad hwn i aelodau'r Gymdeithas yn unig, fel corff, yn unol â gofynion Rheoliadau Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, Deddf Tai ac Adfywio 2008 a Phenderfyniad Cyffredinol Gofynion Cyfrifyddu ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2015. Mae ein gwaith archwilio wedi cael ei wneud fel y gallem ddatgan i aelodau'r Gymdeithas y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilydd ac nid am unrhyw ddiben arall. I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw am y Gymdeithas ac aelodau'r Gymdeithas fel corff, ar gyfer ein gwaith archwilio, yr adroddiad hwn, na'r farn a ffurfiwyd gennym.

Haines Watts Wales LLP
Archwilydd Statudol
7 Llys Neifion
Ffordd Vanguard
Caerdydd
CF24 5PJ
Dyddiad: July 2024



Datganiadau ariannol

Datganiad incwm ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 tan 31 Mawrth 2024

	Nodyn	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
		2024 £'000	2023 fel y'i Hailddatganwyd £'000	2024 £'000	2023 fel y'i Hailddatganwyd £'000
Trosiant	2	63,683	60,254	63,662	60,233
Llai: costau gweithredu	2	(54,349)	(52,817)	(54,349)	(52,817)
Gwarged gweithredu		9,334	7,437	9,313	7,416
Colled)/Gwarged ar ailbriso eiddo Buddsoddi	12	1,566	(253)	1,566	(253)
Incwm dididend					
Gwarged ar werthu asedau sefydlog	3	(2)	1	(2)	1
Llog sy'n dderbyniadwy ac incwm tebyg	4	718	-	718	-
Llog sy'n daladwy a thaliadau tebyg	5	(4,901)	(4,269)	(4,901)	(4,269)
Gwarged ar weithgareddau cyffredin cyn treth		6,715	2,916	6,694	2,895
Trethiant ar warged ar weithgareddau cyffredin	7	-	-	-	-
Gwarged ar weithgareddau cyffredin ar ôl trethiant		6,715	2,916	6,694	2,895
Elw/(colled) ailfesur a gydnabyddir ar gynlluniau pensiwn buddion diffiniedig	24	90	11,740	90	11,740
Cyfanswm incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn		6,805	14,656	6,784	14,635
Cyfanswm incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn sy'n briodoladwy i:					
Y Gymdeithas (rhiant-gwmni)		6,803	14,654	6,784	14,635
Cyfrannau nad ydynt yn rheolaethol		2	2	-	-
Cyfanswm incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn		6,805	14,656	6,784	14,635

Mae trosiant a threuliau'r Grŵp a'r Gymdeithas i gyd yn ymwneud â gweithrediadau sy'n parhau.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 43 i 81 gan y Bwrdd ar 25 Gorffennaf 2024 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan



Nick Beckett
Cadeirydd y Bwrdd
25 Gorffennaf 2024



Lisa Pinney
Ysgrifennydd y Cwmni
25 Gorffennaf 2024

Datganiad o newidiadau i gronfeydd wrth gefn y Grŵp

	Cyfalaf cyfranddaliadau	Cyfrif incwm a gwariant	Cyfanswm ac eithrio cyfran nad yw'n rheolaethol	Cyfran nad yw'n rheolaethol	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Ar 1 Ebrill 2022	2	118,025	118,027	(63)	117,964
Cyfanswm incwm cynhwysfawr					
Gwarged ar gyfer y flwyddyn		2,914	2,914	2	2,916
Colled ailfesur a gydnabyddir ar gynlluniau pensiwn buddion diffiniedig		11,740	11,740		11,740
Cyfanswm incwm cynhwysfawr	-	14,654	14,654	2	14,656
Ar 31 Mawrth 2023 (Fel y'i Hailddatganwyd)	2	132,679	132,681	(61)	132,620
Ar 1 Ebrill 2023	2	132,679	132,681	(61)	132,620
Cyfanswm incwm cynhwysfawr					
Gwarged ar gyfer y flwyddyn		6,713	6,713	2	6,715
Colled ailfesur a gydnabyddir ar gynlluniau pensiwn buddion diffiniedig		90	90		90
Cyfanswm incwm cynhwysfawr	-	6,803	6,803	2	6,805
Ar 31 Mawrth 2024	2	139,482	139,484	(59)	139,425



Nick Beckett
Cadeirydd y Bwrdd
25 Gorffennaf 2024



Lisa Pinney
Ysgrifennydd y Cwmni
25 Gorffennaf 2024

Datganiad o newidiadau i gronfeydd wrth gefn y Gymdeithas

	Cyfalaf cyfranddaliadau	Cyfrif incwm a gwariant	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000
Ar 1 Ebrill 2022	2	118,608	118,610
Cyfanswm incwm cynhwysfawr			
Gwarged ar gyfer y flwyddyn		2,895	2,895
Colled ailfesur a gydnabyddir ar gynlluniau pensiwn buddion diffiniedig		11,740	11,740
Cyfanswm incwm cynhwysfawr	-	14,635	14,635
Ar 31 Mawrth 2023 (Fel y'i Hailddatganwyd)	2	133,243	133,245
Ar 1 Ebrill 2023	2	133,243	133,245
Cyfanswm incwm cynhwysfawr			
Gwarged ar gyfer y flwyddyn		6,694	6,694
Colled ailfesur a gydnabyddir ar gynlluniau pensiwn buddion diffiniedig		90	90
Cyfanswm incwm cynhwysfawr	-	6,784	6,784
At 31 March 2024	2	140,027	140,029



Nick Beckett
Cadeirydd y Bwrdd
25 Gorffennaf 2024



Lisa Pinney
Ysgrifennydd y Cwmni
25 Gorffennaf 2024

Datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2024

	Nodyn			Y Gymdeithas	
	Nodyn	2024 £'000	2023 Fel y'i Hailddatganwyd £'000	2024 £'000	2023 Fel y'i Hailddatganwyd £'000
Asedau sefydlog anniriaethol	8	1,072	1,051	1,072	1,051
Eiddo, peiriannau ac offer					
Eiddo tai	9	196,424	185,260	196,424	185,260
Asedau sefydlog eraill diriaethol	10	4,085	3,940	4,085	3,940
Buddsoddiad mewn is-gwmnïau	11	-	-	425	50
Eiddo buddsoddi	12	7,575	5,623	7,575	5,623
		209,156	195,874	209,581	195,924
Asedau cyfredol					
Stoc	13	205	241	205	241
Masnach a dyledwyr eraill	14	6,499	7,557	6,499	7,544
Arian parod yn y banc ac ar law	21	22,581	24,022	22,579	24,020
		29,285	31,820	29,283	31,805
Credydwyr: Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	15	(6,027)	(7,888)	(5,846)	(7,877)
Asedau/(rhwymedigaethau) cyfredol net		23,258	23,932	23,437	23,928
Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol		232,414	219,806	233,018	219,852
Credydwyr: Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	16	(92,371)	(86,463)	(92,371)	(85,884)
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau	17	(618)	(723)	(618)	(723)
Rhwymedigaethau pensiwn LGPS	24		-		-
Asedau net		139,425	132,620	140,029	133,245
Cyfalaf a chronfeydd wrth gefn					
Cyfalaf cyfranddaliadau	2		2	2	2
Cyfrif incwm a gwariant		139,482	132,679	140,027	133,243
Cyfran nad yw'n rheolaethol		(59)	(61)	-	-
Cyfanswm cronfeydd wrth gefn		139,425	132,620	140,029	133,245

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 43x i 81 gan y Bwrdd ar 25 Gorffennaf 2024 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan



Nick Beckett
Cadeirydd y Bwrdd
25 Gorffennaf 2024



Lisa Pinney
Ysgrifennydd y Cwmni
25 Gorffennaf 2024

Datganiad Ilif arian parod y Grŵp ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 tan 31 Mawrth 2024

	Nodyn	2024		2023 – Fel y'i Hailddatganwyd	
		£'000	£'000	£'000	£'000
Arian parod net a gynhyrchwyd o weithgareddau gweithredu	21		16,903		19,630
Treth a dalwyd	7	-		-	
Llif arian parod o weithgareddau buddsoddi					
Llog a dderbyniwyd	21	718		-	
Prynu eiddo tai cymdeithasol	9	(21,065)		(15,751)	
Prynu eiddo buddsoddi	12	-		-	
Asedau sefydlog eraill diriaethol	10	(118)		(269)	
Taliadau i gaffael asedau sefydlog anniriaethol	8	(295)		(393)	
Derbyn grantiau'r llywodraeth nad ydynt yn reffeniw	16	5,994		3,136	
Enillion o werthu asedau sefydlog diriaethol	3	(2)		-	
Llif arian parod net o weithgareddau buddsoddi			(14,768)		(13,277)
Gweithgareddau cyllido					
Llog a dalwyd	21	(2,589)		(2,585)	
Tynnu cyfleuster benthyciad i lawr	16	-		-	
Cyfleuster les cyllid	16	(987)		(940)	
Ad-dalu benthyciadau	21	-		-	
Llif arian parod net o weithgareddau cyllido			(3,576)		(3,525)
Gostyngiad)/Cynnydd mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod			(1,441)		2,828
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar 1 Ebrill			24,022		21,194
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar 31 Mawrth			22,581		24,022



Nick Beckett
Cadeirydd y Bwrdd
25 Gorffennaf 2024



Lisa Pinney
Ysgrifennydd y Cwmni
25 Gorffennaf 2024

Datganiad Ilif arian parod y Gymdeithas ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 tan 31 Mawrth 2024

	Note	2024		Fel y'i Hailddatganwyd - 2023	
		£'000	£'000	£'000	£'000
Arian parod net a gynhyrchwyd o weithgareddau gweithredu	21		16,903		19,630
Treth a dalwyd					
Llif arian parod o weithgareddau buddsoddi					
Llog a dderbyniwyd	21	718		-	
Prynu eiddo tai cymdeithasol	9	(21,065)		(15,751)	
Prynu eiddo buddsoddi	12	-		-	
Asedau sefydlog eraill diriaethol	10	(118)		(269)	
Taliadau i gaffael asedau sefydlog anniriaethol	8	(295)		(393)	
Derbyn grantiau'r llywodraeth nad ydynt yn reffeniw	16	5,994		3,136	
Enillion o werthu asedau sefydlog diriaethol	3	(2)		-	
Llif arian parod net o weithgareddau buddsoddi			(14,768)		(13,277)
Gweithgareddau cyllido					
Llog a dalwyd	21	(2,589)		(2,585)	
Tynnu cyfleuster benthyciad i lawr	16	-		-	
Cyfleuster les cyllid	16	(987)		(940)	
Ad-dalu benthyciadau	21	-		-	
Llif arian parod net o weithgareddau cyllido			(3,576)		(3,525)
(Gostyngiad)/Cynnydd mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod			(1,441)		2,828
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar 1 Ebrill			24,020		21,192
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar 31 Mawrth			22,579		24,020



Nick Beckett
Cadeirydd y Bwrdd
25 Gorffennaf 2024



Lisa Pinney
Ysgrifennydd y Cwmni
25 Gorffennaf 2024

Nodiadau i'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn 1 Ebrill 2023 tan 31 Mawrth 2024

Nodyn 1 – Polisiau cyfrifyddu

Datganiad cydymffurfio

Mae Trivallis yn gymdeithas gofrestredig o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydfuddiannol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 sydd wedi'i chorffori yng Nghymru. Mae ei swyddfa gofrestredig ar dudalen X.

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon ("FRS 102") fel y bo'n gymwys i ddatganiadau ariannol y Grŵp ar gyfer y flwyddyn i ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024. Mae'r datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r Datganiad Arfer Argymelledig "Cyfrifyddu gan Ddarparwyr Tai Cymdeithasol Cofrestredig" a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2019 ("SORP 2018") a Phenderfyniad Cyffredinol Gofynion Cyfrifyddu ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2015.

Mae'r Bwrdd o'r farn bod Trivallis yn Endid Budd Cyhoeddus, fel y'i diffinnir gan FRS 102. Prif amcan Endid Budd Cyhoeddus yw darparu nwyddau neu wasanaethau er budd y cyhoedd, y gymuned neu'r gymdeithas a lle y darperir unrhyw ecwiti gyda'r bwriad o gefnogi prif amcanion yr endid yn hytrach na chynhyrchu elw ariannol i ddarparwyr ecwiti, cyfranddalwyr neu aelodau.

Sail paratoi

Cymeradwywyd datganiadau ariannol Trivallis gan y Bwrdd ar 25 Gorffennaf 2024. Fel yr amlinellir yn Adroddiad y Bwrdd, paratowyd y datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol ac mae'r cyfarwyddwyr o'r farn bod hyn yn briodol am y rhesymau canlynol. Mae'r Grŵp yn paratoi a chymeradwyo cynllun busnes 30 mlynedd bob blwyddyn. Cymeradwywyd y cynllun busnes diweddaraf ym mis Gorffennaf 2023 gan y Bwrdd. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad o effaith cyfres o senarios niweidiol difrifol ond credadwy a allai effeithio ar y cynllun. Mesurwyd yr effeithiau hyn yn erbyn cyfamodau benthyciad, ynghyd â chymau gweithredu lliniarol a amlygwyd i leihau costau.

Ar ôl adolygu cyllidebau'r Grŵp ar gyfer 2024 a sefyllfa ariannol tymor canolig y Grŵp, fel y manylir yn y cynllun busnes 30 mlynedd, mae'r Bwrdd o'r farn, o ystyried dirywiadau niweidiol difrifol ond credadwy, bod gan y Grŵp adnoddau digonol i barhau i fodloni ei rwymedigaethau dros y cyfnod o 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol (y cyfnod asesu busnes gweithredol).

I ddod i'r casgliad hwn, mae'r Bwrdd wedi ystyried y ffactorau canlynol:

- Costau cynnal a chadw – modelwyd senarios cyllideb a chynllun busnes i ystyried cynnydd mewn costau, mae effaith oedi ar raglenni gwella cynlluniedig a sensitifrwydd wedi cael eu cynnwys i ddeall costau posibl yn y dyfodol yn ymwneud â datgarboneiddio.
- Rhent a thâl gwasanaeth sy'n dderbyniadwy – cynyddwyd ôl-ddyledion a drwgddyledion i ganiatáu ar gyfer cwsmeriaid sy'n cael trafferth gwneud taliadau a senarios cyllideb a chynllun busnes i ystyried rhewi rhent.
- Hylifedd – mae'r arian parod sydd ar gael ar hyn o bryd a chyfleusterau benthyciad heb eu defnyddio yn rhoi lle sylweddol ar gyfer gwariant ymrwymedig a llifoedd arian parod eraill rhagfynedig yn ystod cyfnod yr asesiad busnes gweithredol.
- Gallu'r grŵp i wrthsefyll senarios niweidiol eraill fel cyfraddau llog uwch a chynnydd yn nifer yr eiddo gwag.

Mae'r Bwrdd yn credu bod gan y Grŵp ddigon o gyllid ac mae'n disgwyl i'r Grŵp gydymffurfio â'i gyfamodau benthyciad mewn digwyddiadau senarios dirywiad sylweddol.

O ganlyniad, mae'r Cyfarwyddwyr yn hyderus y bydd gan y Grŵp ddigon o gyllid i barhau i fodloni ei rwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus am 12 mis o leiaf o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol, ac felly maen nhw wedi paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol.

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi mewn Sterling, sef arian cyfred gweithredol y Grŵp, a'u talgrynnu i'r £'000 agosaf.

Sail cyfuno

Mae datganiadau ariannol y Grŵp yn cyfuno datganiadau ariannol Trivallis a'i is-gwmnïau ar 31 Mawrth bob blwyddyn.

Mae is-gwmnïau'n cael eu cyfuno o'r dyddiad caffael. Dyma'r dyddiad pan fydd y Grŵp yn cyflawni rheolaeth. Diffinnir hyn fel y pŵer i reoli polisiâu ariannol a gweithredu endid i gael buddion o'i weithgareddau. Mae is-gwmnïau'n aros wedi'u cyfuno hyd nes y bydd y Grŵp yn peidio â bod â rheolaeth, ac mae unrhyw gyfran leiafrifol cyfranddalwyr eraill yn cael ei dileu yn unol ag FRS102. Mae endidau y mae'r Grŵp yn dal buddiant ynddynt, ac a reolir ar y cyd gan y Grŵp ac un neu fwy o fentrau eraill o dan drefniant cytundebol, yn cael eu trin fel mentrau ar y cyd a chyfrifyddir amdanynt gan ddefnyddio'r dull ecwiti.

Mae endidau heblaw am ymgymeriadau is-gwmni neu fentrau ar y cyd y mae gan y Grŵp fuddiant cyfranogol ynddynt a lle mae'r Grŵp yn arfer dylanwad sylweddol, yn cael eu trin fel cwmnïau cyswllt a chyfrifyddir amdanynt gan ddefnyddio'r dull ecwiti.

Yn natganiadau ariannol y Gymdeithas, mae buddsoddiadau mewn cysylltiadau, mentrau ar y cyd ac is-gwmnïau yn cael eu cyfrifyddu ar sail pris cost llai amhariad.

Amcangyfrifon a dyfarniadau cyfrifyddu allweddol

Mae paratoi'r datganiadau ariannol yn golygu bod angen i reolwyr wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar y symiau a adroddir ar gyfer asedau a rhwymedigaethau ar ddyddiad y fantolen a'r symiau a adroddir ar gyfer incwm a gwariant yn ystod y flwyddyn. Seiliodd y Grŵp ei amcangyfrifon a'i dybiaethau ar bamedrau a oedd ar gael ar yr adeg y paratowyd y datganiadau ariannol cyfunol. Fe allai amgylchiadau presennol a thybiaethau ynglŷn â datblygiadau yn y dyfodol newid o ganlyniad i amgylchiadau'r farchnad, deddfwriaeth neu amgylchiadau eraill sydd y tu hwnt i reolaeth y Grŵp. Adlewyrchir newidiadau o'r fath yn y tybiaethau a'r amcangyfrifon pan fyddant yn digwydd.

Mae'r dyfarniadau canlynol wedi cael yr effaith fwyaf sylweddol ar symiau a gydnabuwyd yn y datganiadau ariannol.

Oes ddefnyddiol amcangyfrifedig eiddo, peiriannau ac offer

Ar ddyddiad cyfalafu asedau sefydlog diriaethol, mae'r Grŵp yn amcangyfrif oes ddefnyddiol yr ased yn seiliedig ar farn a phrofiad rheolwyr. O ganlyniad i arwyddocâd buddsoddiad cyfalaf i'r Grŵp, fe allai amrywiadau rhwng yr oes economaidd wirioneddol ac amcangyfrifedig effeithio ar ganlyniad y Grŵp yn gadarnhaol neu'n negyddol.

Darpariaethau

Mae'r amcangyfrif o swm y ddarpariaeth yn cyfateb i wariant tebygol y Grŵp i setlo ei rhwymedigaeth. Os na ellir amcangyfrif swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy, ni chofnodir darpariaeth, ac ystyrir bod y rhwymedigaeth yn rhwymedigaeth ddigwyddiadol. Mae'r amcangyfrifon a'r tybiaethau y mae risg sylweddol y gallent achosi addasiad perthnasol i werth cario'r darpariaethau o fewn y flwyddyn ariannol nesaf fel a ganlyn:

- Buddion cyflogaeth tymor byr – cost hawl cyflogeion i wyliau sy'n weddill ar ddyddiad y fantolen.
- Hawliadau yswiriant – nifer yr hawliadau sy'n weddill ac amcangyfrifon costau setlo.
- Cerbydau ar les – amllder difrod damweiniol.
- Gwarant amgylcheddol – newidiadau i'r gyfradd llog a gymhwysir i'r cyfrifiad darpariaeth neu gost sylfaenol y rhwymedigaeth bosibl.

Cynllun pensiwn buddion diffiniedig

Mae cyflogeion Trivallis yn gymwys i ymuno â Chronfa Bensiwn Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sy'n gynllun llywodraeth leol. Cynllun buddion cwbl ddiffiniedig yw hwn. Mae ased neu rhwymedigaeth cynllun pensiwn buddion diffiniedig y Grŵp, a asesir gan actiwariaid bob cyfnod, wedi'i seilio ar dybiaethau allweddol gan gynnwys cyfraddau gostyngol, cyfraddau marwolaethau, chwyddiant, costau cyflogau yn y dyfodol a chostau pensiwn yn y dyfodol. Fe allai'r tybiaethau hyn, yn unigol neu ar y cyd, amrywio o'r canlyniadau gwirioneddol. Gweler nodyn 24 am fanylion.

Trethiant a threthiant gohiriedig

Er bod Trivallis yn cael ei drin yn elusennol at ddibenion treth, mae gweithgareddau nad ydynt yn elusennol yn cael eu gwneud yng Nghartrefi Bae Caerdydd LLP (a adwaenwyd gynt fel Bellerophon (Prosiect 1) LLP). Mae hyn yn creu tâl trethiant ar gyfer y Grŵp ac, ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, mae angen gwneud dyfarniad wrth bennu'r ddarpariaeth ar gyfer Treth Gorfforaeth. Mae'r Grŵp yn cydnabod rhwymedigaethau ar gyfer materion treth disgwylidig yn seiliedig ar yr amcangyfrifon gorau ar ddyddiad y fantolen.

Pan fydd canlyniad treth terfynol yr uchod yn wahanol i'r symiau a gofnodwyd yn wreiddiol, bydd gwahaniaethau o'r fath yn effeithio ar y darpariaethau treth gyfredol a threth ohiriedig yn y flwyddyn pan wneir dyfarniad o'r fath. Fe allai canlyniad yr eitemau treth hyn arwain at symudiadau perthnasol cyfrif incwm a gwariant a llif arian.

Asedau anniriaethol – meddalwedd gyfrifiadurol

Unig asedau anniriaethol y Grŵp yw meddalwedd gyfrifiadurol a chostau datblygu cysylltiedig. Cydnabyddir hyn fel cost wrth gaffael. Mae meddalwedd gyfrifiadurol yn cael ei dibrisio dros bum mlynedd.

Eiddo, peiriannau ac offer

Cost eiddo tai

Eiddo tai a ddsberthir yn eiddo, peiriannau ac offer yw'r rhai hynny a roddir ar osod fel rhent cymdeithasol. Fe'u datganir ar bris cost llai dibrisiant.

Rhennir eiddo tai yn bedwar math, sef:

1. Cyfalafwyd yr eiddo a brynwyd oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar 10 Rhagfyr 2007 am ddim cost gan fod y gwaith a oedd yn ofynnol er mwyn iddynt gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru a'u cynnal ar y lefel honno wedi arwain at brisiad negyddol yn deillio o'r llifoedd arian parod gostyngol dros 30 mlynedd. Cyfalafir gwelliannau a gwaith mawr dilynol ar bris cost i wella budd economaidd yr ased.
2. Eiddo a brynwyd lle mae'r gost yn gost caffael yr eiddo yn ogystal â ffioedd cysylltiedig a gwaith sy'n ofynnol er mwyn iddynt allu cael eu defnyddio.
3. Datblygiad newydd lle mae cartrefi newydd yn cael eu comisiynu a'u hadeiladu. Mae costau datblygu eiddo'n cynnwys y canlynol:
 - Cost tir ac adeiladau.
 - Ffioedd proffesiynol.
 - Costau rheoli sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r cynllun datblygu.
 - Mae taliadau cyllid a gafwyd yn ystod y cyfnod datblygu'n cael eu cyfalafu a'u hychwanegu at gost eiddo tai a gwblhawyd yn seiliedig ar fuddsoddiad net y Grŵp a'i gostau benthyca cyfartalog yn ystod y flwyddyn; a
 - Darpariaeth ar gyfer cost gwaith a gwblhawyd ond na thalwyd amdano ar ddiwedd y flwyddyn.
4. Eiddo ar les a adeiladwyd o ganlyniad i drafodyn Cartrefi Bae Caerdydd LLP (a adwaenwyd gynt fel Bellerophon (Prosiect 1) LLP). Mae cost cyfalaf yr eiddo hyn yn cynnwys y canlynol:
 - Cost tir ac adeiladau.
 - Ffioedd proffesiynol.
 - Costau rheoli yn uniongyrchol gysylltiedig â'r cynllun datblygu.
 - Mae taliadau cyllid a gafwyd yn ystod y cyfnod datblygu yn cael eu cyfalafu a'u hychwanegu at gost eiddo tai a gwblhawyd yn seiliedig ar y gost sy'n uniongyrchol briodoladwy; a
 - Darpariaeth ar gyfer cost gwaith a gwblhawyd ond na thalwyd amdano ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae cost eiddo tai yn cynnwys costau sy'n uniongyrchol briodoladwy i wneud gwaith arnynt fel eu bod mewn cyflwr da i'w defnydd bwriadedig neu ddatblygu eiddo newydd. Diffinnir costau uniongyrchol briodoladwy fel: costau llafur cyflogaion Trivallis sy'n deillio'n uniongyrchol o adeiladu neu gaffael eiddo; a chostau cynyddrannol a fyddai wedi'u hosgoi pe na byddai eiddo unigol wedi cael ei adeiladu neu ei gaffael.

Mae unrhyw gostau ofer a geir yn ymwneud â datblygiadau nad ydynt yn symud ymlaen yn cael eu dileu i'r Cyfrif Incwm a Gwariant yn y flwyddyn a amlygwyd yn ofer.

Mae gwariant ar eiddo tai presennol yn cael ei gyfalafu i'r graddau ei fod yn gwella budd economaidd ased. Gall gwelliannau o'r fath ddigwydd os ydynt yn arwain at naill ai:

- cynnydd mewn incwm rhent;
- gostyngiad sylweddol mewn costau cynnal a chadw yn y dyfodol; neu
- estyniad sylweddol i oes yr eiddo.

Dim ond prif welliannau sylfaenol sy'n bodloni'r meini prawf hyn sy'n cael eu cyfalafu, ac mae'r rhain yn cael eu dibrisio dros eu rychwant oes sylfaenol amcangyfrifedig, ar sail llinell syth. Dangosir cyfnodau dibrisiant isod. Mae'r holl gostau eraill yn cael eu dileu i'r Cyfrif Incwm a Gwariant fel rhai a gafwyd.

Dangosir gwerthu eiddo a ddelir i'w rentu ar y Cyfrif Incwm a Gwariant fel gwargedau neu ddiffygion o werthu asedau sefydlog.

Dibrisiant

Tir rhydd-ddaliadol -Nid yw tir rhydd-ddaliadol yn cael ei ddibrisio.

Eiddo tai

Codir dibrisiant adeiladau, ac eithrio'r gwelliannau a fanylir isod, i leihau'r gwerth llyfr net i'w gwerth gweddilliol amcangyfrifedig ar sail llinell syth ar hyd eu hoes economaidd ddefnyddiol i'r busnes:

- Mae eiddo a adeiladwyd yn draddodiadol yn cael eu dibrisio dros 50 mlynedd.
- Mae eiddo anhraddodiadol yn cael eu dibrisio dros 40 mlynedd.

Eiddo les-ddaliadol

Mae eiddo les-ddaliadol yn cael eu dibrisio ar hyd oes weddilliol y brydles ar y dyddiad y dechreuir defnyddio'r eiddo.

Gwelliannau i eiddo tai

Mae'r prif welliannau a gyfalafir yn cael eu dibrisio ar hyd eu rychwant oes sylfaenol amcangyfrifedig, ar sail llinell syth, dros y cyfnodau canlynol:

• Ceginau	15 mlynedd	• Paneli solar	20 mlynedd
• Ystafelloedd ymolchi	25 mlynedd	• Nwy prif gyflenwad	50 mlynedd
• Boeleri gwres canolog	15 mlynedd	• Drysau	10 mlynedd
• Ailwifro tŷ cyfan	30 mlynedd	• Lifftau	25 mlynedd
• Toeon newydd – Tai	50 mlynedd	• Toeon newydd – Fflatiau	30 mlynedd
• Ffenestri – Tai	40 mlynedd	• Ffenestri – Fflatiau	30 mlynedd
• Gwelliannau i eiddo anhraddodiadol	40 mlynedd	• Systemau mynediad ar gyfer drysau	20 mlynedd
• Systemau chwistrellu dŵr	25 mlynedd	• Synwryddion larwm tân	25 mlynedd
• Tân – Pibell godi prif gyflenwad	40 mlynedd (traddodiadol) 50 mlynedd (anhraddodiadol)	• Systemau rhybuddio gwacáu mewn tân	25 mlynedd

Mae trothwy cost o £1,000 yn berthnasol ar gyfer cyfalafu, er y gallai asedau sy'n costio llai na £1,000 gael eu casglu ynghyd mewn grŵp a'u cyfalafu, os yw'n briodol.

Asedau sefydlog eraill

Cyfrifir dibrisiant i ddileu cost yr ased sefydlog ar sail llinell syth ar hyd ei oes ddefnyddiol amcangyfrifedig. Mae'r cyfraddau a ddefnyddir fel a ganlyn:

• Adeiladau rhydd-ddaliadol	50 mlynedd	• Cerbydau	4 blynedd
• Dodrefn, ffitiadau a gosodiadau	10 mlynedd	• Peiriannau ac offer	4 blynedd
• Offer swyddfa	5 mlynedd	• Caledwedd gyfrifiadurol	3 blynedd
• Eiddo ar les	Ar hyd oes y brydles sy'n weddill		
• Gwelliannau i swyddfa ar les	Ar hyd oes y brydles sy'n weddill		

Eiddo buddsoddi

Mae eiddo a ddelir i gynhyrchu refeniw neu arbrisiant cyfalaf yn cael eu dosbarthu fel eiddo buddsoddi ac fe'u delir ar werth teg gyda newidiadau i werth teg yn cael eu nodi'n uniongyrchol ar y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Cynhelir prisiad bwrdd gwaith yn fewnol gan ddefnyddio mynegai BCIS priodol, a chynhelir prisiad allanol bob pedair blynedd.

Amhariad asedau anariannol

Cynhelir adolygiad blynyddol o ddangosyddion amhariad i eiddo tai ac, os yw'n briodol, cynhelir adolygiad amhariad blynyddol yn unol ag FRS 102 (S27) a SORP 2018. Defnyddir y dangosyddion canlynol i bennu p'un a oes amhariad:

- Gostyngiad blynyddol i'r mynegai prisiau tai yn Rhondda Cynon Taf rhwng Ionawr a Rhagfyr sy'n fwy na 2.5%
- LIBOR 3 mis sy'n uwch na 7.5% neu y disgwylir iddo godi'n uwch na 7.5%
- Colled o fwy na 5% ar eiddo gwag
- Colled o fwy na 6% ar ddrwgddyledion
- Gorwariant o fwy na 10% ar gynnal a chadw ymatebol
- Dileu elfennau sy'n fwy na 5% o ddibrisiant eiddo tai
- Torri cyfamod gwirioneddol neu ragfynedig
- Gorwariant datblygu rhagfynedig o fwy nag 20% heb atebolrwydd
- Oedi rhagfynedig o fwy na 6 mis wrth drosglwyddo datblygiad heb atebolrwydd

Pan fydd amhariad, gostyngir asedau sefydlog i'w swm adenilladwy a nodir y gostyngiad ar y Cyfrif Incwm a Gwariant.

Diffinnir Unedau sy'n Cynhyrchu Arian Parod yn ôl nodweddion economaidd yr asedau sylfaenol. Mae eiddo a drosglwyddwyd ar sero o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn uned cynhyrchu arian parod unigol. Bydd eiddo newydd a roddwyd ar osod ar rent masnachol ac eiddo newydd a roddwyd ar osod ar rent cymdeithasol yn unedau cynhyrchu arian parod ar wahân, ar sail cynlluniau unigol.

Taliadau cyllid wedi'u cyfalafu

Mae unrhyw daliadau cyllid sy'n uniongyrchol briodoladwy i adeiladu asedau sefydlog diriaethol yn cael eu cyfalafu pan fyddant yn berthnasol.

Asedau a dderbynnir trwy drafodion heb gyfnewid

Mae asedau a dderbynnir trwy drafodion heb gyfnewid (rhoddion a chymynroddion) yn cael eu cynnwys yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar werth teg os yw hyn yn fwy na throthwy cyfalafu'r Grŵp. Nid yw asedau na ellir mesur eu gwerth teg yn ddibynadwy yn cael eu cydnabod yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

Pan nad oes amodau cysylltiedig â pherfformiad yn y dyfodol yn gysylltiedig â'r gymynrodd neu'r rhodd, nodir gwerth teg yr ased fel incwm. Pan fydd rhwymedigaethau cysylltiedig â pherfformiad yn y dyfodol yn berthnasol, cydnabyddir gwerth teg yr asedau a dderbyniwyd mewn incwm pan gydymffurfir â'r rhain yn unig.

Pan na chydymffurfiwyd â meini prawf cydnabod refeniw, caiff gwerth teg yr ased ei drin fel incwm gohiriedig.

Dylid cydnabod cymynroddion pan fyddant yn fesuradwy h.y. pan fyddant yn debygol neu pan fydd cyfrifon yr ystad wedi'u cwblhau'n derfynol.

Cydnabod refeniw

Cydnabyddir refeniw i'r graddau bod y Grŵp yn cael yr hawl i ystyriaeth yn gyfnewid am ei berfformiad. Mesurir refeniw ar werth teg ystyriaeth a dderbyniwyd ac eithrio gostyngiadau, ad-daliadau, TAW a threthi neu dollau eraill ar werthiannau.

Pan fydd yr ystyriaeth sy'n dderbyniadwy mewn arian parod neu'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn cael ei gohirio ac mae'r trefniant yn gyfystyr â thrafodyn cyllido, mesurir gwerth teg ystyriaeth fel gwerth presennol yr holl dderbyniadau yn y dyfodol gan ddefnyddio'r gyfradd llog a fewnbynwyd.

Mae incwm rhent a thâl gwasanaeth yn cael ei ddatgan yn glir o golledion eiddo gwag.

Cydnabyddir incwm mewn perthynas â gwasanaethau a ddarparwyd pan fydd y Grŵp wedi cyflawni ei rwymedigaethau cytundebol.

Grantiau'r llywodraeth

Diffinnir grantiau'r llywodraeth yn SORP 2018 fel "Cymorth gan y llywodraeth ar ffurf trosglwyddo adnoddau i'r endid yn ddychwelyd am gydymffurfio ag amodau penodedig sy'n ymwneud â gweithgareddau gweithredu'r endid yn y gorffennol neu'r dyfodol". Mae llywodraeth yn golygu'r llywodraeth, asiantaethau'r llywodraeth a chyrrff tebyg, p'un a ydynt yn lleol, yn genedlaethol neu'n rhyngwladol.

Cydnabyddir grantiau'r llywodraeth pan fydd y Grŵp wedi cydymffurfio â'r amodau gofynnol ac mae sicrwydd y bydd y grant yn cael ei dderbyn.

Mae grantiau'r llywodraeth sy'n ymwneud ag eiddo tai a ddelir ar bris cost yn cael eu cyfrifyddu gan ddefnyddio'r model croniadau a'u hamorteiddio ar hyd oes yr asedau cysylltiedig.

Mae'r rhan heb ei hamorteiddio o grantiau a dderbynnir yn cael ei dal ar wahân yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol fel grant gohiriedig.

Pan fydd asedau a ariennir gan grant yn cael eu gwaredu ac nid oes gofyniad i ad-dalu'r grant, mae'r rhan heb ei hamorteiddio o'r grant yn cael ei rhyddhau fel incwm.

Mae grantiau sy'n ad-daladwy yn cael eu cyfrifyddu gan ddefnyddio amcangyfrif gorau rheolwyr o'r rhwymedigaeth.

Yn unol â'r model croniadau, mae grantiau cysylltiedig â refeniw yn cael eu rhyddhau i'r cyfrif Incwm a Gwariant yn ystod y cyfnod pan gydnabyddir y costau cysylltiedig.

Derbynnir HFG dros gyfnod o 30 mlynedd ac mae llog yn dderbyniadwy gan Lywodraeth Cymru, ar gyfanswm gwerth cyfalaf y grant, yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae gwerth presennol net yr HFG sy'n dderbyniadwy ar hyd y tymor talu cytunedig yn cael ei gydnabod fel grant cyfalaf a dyledwr gohiriedig.

Pan dderbynnir y taliadau grant, mae'r dyledwr yn lleihau yn ôl yr elfen gyfalaf a'r gwahaniaeth rhwng hyn, ac mae swm y grant a dderbynnir yn cael ei gredydu i warged neu ddiffyg yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr fel cyfraniad tuag at gost cyllido'r cynllun hwnnw. Mae'r gyfradd ostyngol a ddefnyddir ar gyfer y cyfrifiadau gwerth presennol net yr un fath â honno sy'n berthnasol i'r benthycia cysylltiedig i ariannu'r asedau tai.

Grantiau nad ydynt yn dod o'r llywodraeth

Mae grantiau a dderbynnir gan ffynonellau heblaw am y llywodraeth yn cael eu cyfrifyddu gan ddefnyddio'r model perfformiad, fel a ganlyn:

- Mae grant nad yw'n gosod gofynion perfformiad penodedig ar y Grŵp yn y dyfodol yn cael ei gydnabod fel refeniw pan dderbynnir yr enillion neu pan fyddant yn dderbyniadwy.
- Mae grant sy'n gosod amodau penodedig yn gysylltiedig â pherfformiad yn y dyfodol yn cael ei gydnabod fel refeniw pan fodlonir yr amodau cysylltiedig â pherfformiad yn unig.
- Mae grant a dderbynnir cyn i'r meini prawf cydnabod refeniw gael eu bodloni yn cael ei gydnabod fel rhwymedigaeth.

Stociau

Mae stociau'n cael eu datgan ar bris cost neu werth realeiddiadwy net, pa un bynnag sydd isaf. Mae'r gost yn cynnwys yr holl gostau a gafwyd wrth ddod â phob eitem i'w lleoliad a'i chyflwr presennol. Mae gwerth realeiddiadwy net wedi'i seilio ar y pris gwerthu amcangyfrifedig llai unrhyw gostau ychwanegol a ddisgwyllir wrth gwblhau a gwaredu.

Offerynnau ariannol

Mae Trivallis wedi dewis cymhwyso Adrannau 11 a 12 FRS 102 mewn perthynas ag offerynnau ariannol. Mae offerynnau ariannol yn cynnwys eitemau fel symiau masnach sy'n dderbyniadwy, symiau masnach sy'n daladwy a benthyciadau banc syml. Mesurir benthyciadau banc yn ôl cost wedi'i hamorteiddio. Mae symiau masnach sy'n dderbyniadwy ac yn daladwy yn cael eu dosbarthu fel asedau cyfredol neu rwymedigaethau cyfredol ac fe'u mesurir yn ôl y swm arian parod heb ostyngiad y disgwyllir ei dalu neu ei dderbyn.

Dyledwyr a chredydwyr tymor byr

Mae dyledwyr a chredydwyr tymor byr heb gyfradd llog ddatganedig sy'n dderbyniadwy ac yn daladwy o fewn blwyddyn yn cael eu cofnodi yn ôl pris y trafodyn. Mae unrhyw golledion o ganlyniad i amhariad yn cael eu cydnabod yn y cyfrif incwm a gwariant mewn treuliau gweithredu eraill.

Trafodion cyllido

Mae asedau ariannol sylfaenol, lle mae'r trefniant yn gyfystyr â thrafodyn cyllido, yn cael eu mesur yn ôl gwerth presennol y derbyniadau yn y dyfodol gyda gostyngiad ar gyfradd llog y farchnad.

Benthyciadau consesiynol endid budd cyhoeddus

Mae benthyciadau endid budd cyhoeddus yn fenthyciadau a wneir neu a dderbynnir gan endid budd cyhoeddus neu aelod o grŵp endid cyhoeddus ar gyfradd llog islaw honno sy'n gyffredin yn y farchnad. Nid ydynt yn ad-daladwy ar gais ac fe'u gwneir i ddatblygu amcanion yr endid budd cyhoeddus neu riant-gwmni'r endid budd cyhoeddus.

Mae benthyciadau endid budd cyhoeddus a wneir neu a dderbynnir gan y Grŵp yn cael eu cydnabod yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol fel y swm a delir neu a dderbynnir, ynghyd â llog cronedig. Pan na ellir adennill benthyciad, cydnabyddir colled amhariad mewn incwm a gwariant.

Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

Mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn cynnwys arian parod yn y banc ac ar law ac adneuo tymor byr â dyddiad aeddfedu gwreiddiol o dri mis neu lai.

Benthyciadau sy'n dwyn llog

Mae'r holl fenthyciadau sy'n dwyn llog sy'n offerynnau ariannol sylfaenol yn cael eu mesur yn ôl gwerth teg i ddechrau, gan gynnwys costau trafodion, ac fe'u mesurir wedi hynny yn ôl cost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol.

Prydlesi

Mae prydlesi'n cael eu dosbarthu'n brydlesi cyllid pryd bynnag y bydd telerau'r brydles yn trosglwyddo holl risgiau a buddion perchnogaeth i'r Grŵp i raddau helaeth. Mae'r holl brydlesi eraill yn cael eu dosbarthu'n brydlesi gweithredu.

Mae asedau a ddelir o dan brydlesi cyllid yn cael eu cydnabod i ddechrau ar werth teg yr ased a brydlesir (neu, os yw'n is, ar werth presennol lleiafswm y taliadau prydles). Mae'r atebolrwydd cyfatebol i'r prydleswr yn cael ei gynnwys yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol fel rhwymedigaeth prydles gyllid. Mae taliadau prydles yn cael eu dosrannu rhwng taliadau cyllid a'r gostyngiad yn y rhwymedigaeth brydles i gyflawni cyfradd adenillion gyson ar falans yr atebolrwydd sy'n weddill. Mae taliadau cyllid yn cael eu cynnwys yn llog sy'n daladwy a thaliadau tebyg yn y cyfrif incwm a gwariant. Mae asedau a ddelir o dan brydlesi cyllid yn cael eu dal mewn eiddo, peiriannau ac offer ac yn cael eu dibrisio ar hyd y lleiaf o dymor y brydles ac oes economaidd ddefnyddiol yr asedau. Fe'u hasesir ar gyfer colledion amhariad yn yr un ffordd ag asedau a berchnogir.

Mae rhenti dibynnol yn cael eu cydnabod fel traul yn y cyfnod pan fyddant yn digwydd. Mae taliadau prydles o dan brydlesi gweithredu'n cael eu codi ar y cyfrif incwm a gwariant ar sail llinell syth ar hyd tymor y brydles.

Mae cymhellion prydles yn cael eu cydnabod ar hyd tymor y brydles ar sail llinell syth.

Mae costau trafodion sy'n ymwneud ag asedau a gaffaelir o dan brydlesi cyllid yn cael eu hychwanegu at werth y swm a gydnabyddir fel ased.

Lle y bo'n berthnasol, mae costau trafodion sy'n ymwneud ag asedau a gaffaelir o dan brydlesi gweithredu yn cael eu cydnabod fel ased a'u hamorteiddio ar hyd oes y brydles.

Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau

Cydnabyddir darpariaeth pan fydd gan y Grŵp rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol oherwydd digwyddiad yn y gorffennol, pan fydd yn debygol y bydd angen all-lif buddion economaidd i setlo'r rhwymedigaeth a phan ellir amcangyfrif y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Y swm a gydnabyddir fel darpariaeth yw'r amcangyfrif gorau o'r ystyriaeth sy'n ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth ar ddiwedd y cyfnod adrodd, o ystyried y risgiau a'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â'r rhwymedigaeth.

Pan fydd effaith gwerth arian dros amser yn berthnasol, cydnabyddir y swm y disgwylir y bydd ei angen i setlo'r rhwymedigaethau fel gwerth presennol gan ddefnyddio cyfradd ostyngol cyn treth. Cydnabyddir dileu'r gostyngiad yn raddol fel cost gyllid yn y cyfrif incwm a gwariant yn ystod y cyfnod pan fydd yn codi.

Buddion cyflogeion

Buddion tymor byr

Cydnabyddir buddion tymor byr, gan gynnwys tâl gwyliau a buddion anariannol eraill tebyg, fel traul yn y cyfnod pan dderbynnir y gwasanaeth.

Cynllun pensiwn buddion diffiniedig

Mae Trivallis yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS), a weinyddir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ("CBSRhCT"). Mae'r LGPS yn gynllun buddion diffiniedig a ariennir lle mae buddion a enillwyd hyd at 31 Mawrth 2014 yn cael eu seilio ar gyflog terfynol. Mae buddion a enillir ar ôl 31 Mawrth 2014 yn cael eu seilio ar Gynllun Enillion wedi'u Hailbriso Cyfartaledd Gyrfa.

Y rhwymedigaeth a gydnabyddir yn y fantolen mewn perthynas â'r cynllun pensiwn buddion diffiniedig yw gwerth presennol y rhwymedigaeth buddion diffiniedig llai gwerth teg asedau'r cynllun ar y dyddiad adrodd.

Cyfrifir y rhwymedigaeth buddion diffiniedig gan ddefnyddio'r dull credyd uned rhagamcanol. Mae'r Grŵp yn cyflogi actiwariaid annibynnol i gyfrifo'r rhwymedigaeth bob blwyddyn. Pennir y gwerth presennol trwy ddisgowntio taliadau a ddisgwylyr yn y dyfodol gan ddefnyddio arenillion y farchnad ar fondiau corfforaethol o ansawdd uchel. Pennir yr elfen llog net trwy gymhwyso'r gyfradd ddisgownt i falans net y rhwymedigaeth buddion diffiniedig a gwerth teg asedau'r cynllun. Cydnabyddir y gost hon yn y cyfrif incwm a gwariant fel llog sy'n daladwy a thaliadau tebyg.

Mae enillion a cholledion actiwaraidd sy'n deillio o addasiadau profiad yn cael eu nodi yn incwm cynhwysfawr arall. Mae'r symiau hyn, ynghyd â'r adenillion ar asedau'r cynllun, llai symiau sydd wedi'u cynnwys yn llog net sy'n daladwy, yn cael eu datgelu fel ailfesuriad o'r rhwymedigaeth buddion diffiniedig net.

Adrodd ar sylweddau trafodion mewn perthynas â gwella'r eiddo

Caffaelwyd y Stoc Dai oddi wrth CBSRhCT ar sail wedi'i gwella, a lluniwyd is-gontract (cytundeb datblygu) ar yr un pryd i ymgymryd â rhaglen o waith gwella ar ran CBSRhCT (a adwaenir fel Lloches TAW).

Mae FRS 102.2.8, sy'n datgan y dylai trafodion gael eu cyfrifyddu a'u cyflwyno yn unol â'u sylwedd yn hytrach na'u ffurf gyfreithiol yn unig, wedi cael ei chymhwyso i'r trafodion cyfatebol. Felly, cyfrifir am wariant o dan y cytundeb datblygu fel y mae'n digwydd, dros 20 mlynedd, yn hytrach nag fel trafodyn a ddigwyddodd yn gyfreithlon ar y dyddiad trosglwyddo. Bydd y TAW ar y trafodyn cychwynnol yn cael ei hadennill dros gyfnod 20 mlynedd y Cytundeb Datblygu.

Trethiant

Mae Trivallis yn cael ei drin yn elusennol at ddibenion trethiant. Cadarnhawyd hyn gan Gyllid a Thollau EF (CThEF) ar 20 Tachwedd 2007. O ganlyniad, mae'r gwargedau sy'n deillio o weithgareddau prif ddiben elusennol y tu allan i gwmpas treth gorfforaeth. Adolygir y driniaeth hon bob blwyddyn yn unol â'r gweithgareddau y mae Trivallis yn ymgymryd â nhw i sicrhau bod yr esemptiad yn berthnasol o hyd.

Mae gweithgareddau nad ydynt yn brif ddiben elusennol y mae Trivallis neu ei is-gwmnïau yn ymgymryd â nhw yn ddarostyngedig i dreth gorfforaeth yn unol â'r ddeddfwriaeth gymwys. Mae'r polisïau cyfrifyddu a gymhwysir fel a ganlyn:

Treth gyfredols

Cydnabyddir trethiant cyfredol mewn perthynas â threth gorfforaeth sy'n daladwy o ran elw cyfnodau adrodd cyfredol neu flaenorol, gan ddefnyddio'r deddfau a'r cyfraddau treth a ddeddfwyd neu a ddeddfwyd yn sylweddol erbyn y dyddiad adrodd.

Treth ohiriedig

Mae treth ohiriedig yn codi mewn perthynas â gwahaniaethau amseru rhwng elw trethadwy ac elw cyfrifyddu fel y'i datganir yn y datganiadau ariannol. Mae'r gwahaniaethau amseru hyn yn deillio o gynnwys incwm a threuliau mewn asesiadau treth mewn cyfnodau sy'n wahanol i'r rhai hynny pryd y'u cydnabyddir yn yr offerynnau ariannol.

Cydnabyddir treth ohiriedig ar yr holl wahaniaethau amseru ar y dyddiad adrodd heblaw am yr eithriadau canlynol. Mae colledion treth heb eu rhyddhau ac asedau treth ohiriedig eraill yn cael eu cydnabod dim ond i'r graddau ei bod yn debygol y byddant yn adenilladwy yn erbyn gwrthdroi rhwymedigaethau treth ohiriedig neu elw trethadwy arall yn y dyfodol.

Mesurir treth ohiriedig gan ddefnyddio'r deddfau a'r cyfraddau treth a ddeddfwyd neu a ddeddfwyd yn sylweddol erbyn y dyddiad adrodd ac y disgwylir iddynt fod yn berthnasol i wrthdroi'r gwahaniaeth amseru.

Treth ar Werth (TAW)

Mae Trivallis wedi'i gofrestru ar gyfer TAW. Mae'n codi TAW ar rywfaint o'i incwm ac yn gallu adennill rhan o'r TAW y mae'n ei thalu ar wariant. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys TAW ar wariant i'r graddau nad yw'n adenilladwy gan CThEF. Mae'r balans TAW sy'n daladwy neu'n dderbyniadwy ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cael ei gynnwys fel rhwymedigaeth gyfredol neu ased cyfredol, fel y bo'n briodol.

Trafodion partïon cysylltiedig

Amlygir partïon cysylltiedig trwy'r ymarfer datgelu buddiannau blynyddol a gynhelir. Mae'r holl drafodion â phartïon cysylltiedig yn cael eu gwneud ar hyd braich, yn unol â thelerau masnachol arferol ac ni all y partïon cysylltiedig ddefnyddio eu sefyllfa er budd iddynt.

Nodyn 2 – Trosiant, costau gweithredu a chanlyniadau gweithredu – Y GRŴP

Y Grŵp						
Nodyn A	2024			Fel y'i Hailddatganwyd - 2023		
	Trosiant	Costau gweithredu	Gwarged gweithredu	Trosiant	Costau gweithredu	Gwarged gweithredu
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Tai cymdeithasol ar osod	62,599	(54,295)	8,305	59,498	(52,697)	6,801
(Nodyn B)						
Gweithgareddau tai cymdeithasol eraill						
Arall	-	-	-	-	-	-
Gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â thai cymdeithasol	1,083	(54)	1,029	756	(120)	636
Cyfanswm	63,683	(54,349)	9,334	60,254	(52,817)	7,437

Nodyn 2 – Trosiant, costau gweithredu a chanlyniadau gweithredu – Y

Y Gymdeithas						
Nodyn A	2024			Fel y'i Hailddatganwyd - 2023		
	Trosiant	Costau gweithredu	Gwarged gweithredu	Trosiant	Costau gweithredu	Gwarged gweithredu
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Tai cymdeithasol ar osod	62,599	(54,295)	8,305	59,498	(52,697)	6,801
(Nodyn B)						
Gweithgareddau tai cymdeithasol eraill						
Arall	-	-	-	-	-	-
Gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â thai cymdeithasol	1,062	(54)	1,008	735	(120)	615
Cyfanswm	63,662	(54,349)	9,313	60,233	(52,817)	7,416

Nodyn 2 – Trosiant, costau gweithredu a chanlyniadau gweithredu

Nodyn B	Anghenion cyffredinol £'000	Tai gwarchod £'000	Gweithgareddau Nad Ydynt yn Ymwneud â Thai Cymdeithasol £'000	2024	Fel y'i Hailddatganwyd – 2023
				Cyfanswm £'000	Cyfanswm £'000
Incwm					
Rhent sy'n dderbyniadwy	48,744	2,932	788	52,464	49,168
Incwm tâl gwasanaeth	330	1,042	275	1,647	1,584
Incwm ar gyfer gwasanaethau cymorth – Grantiau Cefnogi Pobl	949	-	-	949	815
